# Tlodi yn Arfon yn 21ain ganrif: Datrysiadau cyfoes ar gyfer hen her

SEFYDLIAD bevan FOUNDATION

Awst 2023



## Gwybodaeth am Sefydliad Bevan

Sefydliad Bevan yw'r felin drafod fwyaf dylanwadol yng Nghymru. Rydym yn creu mewnwelediadau, syniadau ac effaith sy'n helpu i roi terfyn ar dlodi, anghydraddoldeb ac anghyfiawnder. Rydym yn annibynnol, yn wybodus, yn ysbrydoledig ac yn gynhwysol ym mhopeth a wnawn.

Fel elusen gofrestredig annibynnol, mae Sefydliad Bevan yn dibynnu ar haelioni unigolion a sefydliadau am ei waith.

## Cydnabyddiaeth

Mae Sefydliad Bevan yn ddiolchgar i'r llu o bobl a sefydliadau a rannodd eu safbwyntiau â ni.  Rydym hefyd yn ddiolchgar i Hywel Williams AS am gefnogi'r prosiect hwn yn ariannol.  Safbwyntiau'r awduron yw'r rhai a geir yn yr adroddiad ac maen nhw'n gwbl annibynnol – nid ydyn nhw o reidrwydd yn cael eu rhannu gan gefnogwyr a thanysgrifwyr Sefydliad Bevan na'r rheini sy'n cyfrannu i'r prosiect.

## Sut gallwch chi helpu

Mae cannoedd o bobl a sefydliadau ledled Cymru yn galluogi Sefydliad Bevan i godi llais yn erbyn tlodi, anghydraddoldeb ac anghyfiawnder.  Ni fyddem yn bodoli heb eu cefnogaeth.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn https://www.bevanfoundation.org/support-us/individuals/ neu gallwch anfon e-bost at info@bevanfoundation.org i gael gwybod beth allwch chi ei wneud

Awst 2023

Llun clawr: Delwedd gan Catrin Wager

Hawlfraint Sefydliad Bevan

Sefydliad Bevan, 145a Stryd Fawr, Merthyr Tudful CF47 8DP
info@bevanfoundation.org www.bevanfoundation.org

Elusen gofrestredig rhif 1104191 Cwmni cofrestredig yng Nghymru rhif 4175018

# Cynnwys


Crynodeb Gweithredol ........................................ 1
Prif ganfyddiadau ........................................ 1
Atebion ........................................ 2
Cryfhau’r economi ........................................ 2
Lleihau'r premiwm costau byw yn Arfon ........................................ 4
Rhoi’r adroddiad ar waith ........................................ 5
1. Cyflwyniad ........................................ 7
1.1 Gwybodaeth am Arfon ........................................ 7
1.2 Deall tlodi yn Arfon ........................................ 7
2. Yr economi yn Arfon ........................................ 9
2.1 Gwaith yn Arfon ........................................ 9
2.2 Gwaith yn Arfon ........................................ 12
Pobl mewn gwaith a phobl sydd allan o waith ........................................ 12
Y gwaith sy’n cael ei wneud gan bobl sy’n byw yn Arfon ........................................ 13
2.3 Casgliad ........................................ 14
3. Incwm yn Arfon ........................................ 16
3.1 Enillion ........................................ 16
3.2 Nawdd cymdeithasol ........................................ 17
Pa fudd-daliadau y mae pobl yn eu derbyn? ........................................ 18
Beth yw’r heriau sy’n wynebu pobl sy’n cael budd-daliadau? ........................................ 19
3.3 Casgliad ........................................ 20
4. Tai ac ynni ........................................ 22
4.1 Ble mae pobl yn byw? ........................................ 22
4.2 Fforddiadwyedd tai yn Arfon ........................................ 23
4.3 Rôl y diwydiant llety gwyliau ........................................ 24
4.4 Costau ynni ........................................ 25
4.5 Casgliad ........................................ 27
5. Premiwm costau byw Arfon ........................................ 28
5.1 Trafnidiaeth ........................................ 28
5.2 Bwyd a manwerthu ........................................ 30
5.3 Gofal Plant ........................................ 31
5.4 Gwasanaethau eraill ........................................ 32
5.5 Casgliad ........................................ 33
6. Y profiad o dlodi yn Arfon ........................................ 33

6.1 Stigma ac iechyd meddwl ........ 33
6.2 Ymateb y gymuned ........ 35
6.3 Cymunedau sy'n cael eu hanghofio ........ 36
6.4 Casgliad ........ 37
7. Casgliad ac atebion ........ 38
7.1 Cryfhau'r economi ........ 38
Mwy o gyflog ........ 38
Meithrin cyfoeth cymunedol ........ 39
Cefnogi twristiaeth gynaliadwy ........ 39
Nawdd cymdeithasol ........ 39
7.2 Lleihau'r premiwm costau byw yn Arfon ........ 40
Camau gweithredu ar dai ........ 40
Trafnidiaeth ........ 41
Ynni ........ 41
Cyfleusterau Cymunedol ........ 42
Ymateb i brofiadau pobl ........ 42
Atodiad 1 – Beth wnaethon ni ........ 43
Cyfeiriadau ........ 44

# Crynodeb Gweithredol

Mae tlodi yn broblem yn Arfon fel y mae ym mhob cymuned ledled Cymru. Mae bywyd yn anhygoel o anodd i filoedd o bobl ar draws yr etholaeth, gyda llawer o deuluoedd yn ei chael hi'n anodd cadw dau ben llinyn ynghyd. Mae nodweddion yn economi Arfon sy'n golygu bod ffurf benodol i dlodi yn yr etholaeth, ac mae'r rhain yn cael eu harchwilio'n fanwl yn yr adroddiad.

## Prif ganfyddiadau

Mae dau brif ffactor sy'n sbarduno tlodi yn Arfon.

Yn gyntaf, er bod y cyfraddau cyflogaeth cyffredinol yn Arfon yn debyg i weddill Cymru a Phrydain Fawr, mae problem gyda chyflogau isel a gwaith ansicr yn yr etholaeth:

- Mae'r gweithiwr canolrifol sy'n byw yn Arfon £1,045 y flwyddyn yn dlotach na'r gweithiwr canolrifol yng Nghymru, a £3,057 y flwyddyn yn dlotach na'r gweithiwr canolrifol ym Mhrydain Fawr.
- Mae 11.7 y cant o bobl sydd mewn gwaith yn Arfon yn ennill llai na'r cyflog byw gwirioneddol, yn unol â chyfartaledd Cymru.
- Mae gweithwyr yn Arfon yn llawer mwy tebygol o fod mewn gwaith rhan-amser (35 y cant o'r holl weithwyr) na chyfartaledd Cymru (28 y cant) a chyfartaledd Prydain Fawr (27 y cant).
- Mae 8 y cant o'r holl bobl sydd mewn cyflogaeth yn Arfon yn cael eu cyflogi mewn swyddi nad ydyn nhw'n barhaol, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 6 y cant a chyfartaledd Prydain Fawr o 5 y cant.

Er bod y gweithiwr nodweddiadol sy'n byw yn Arfon ar incwm is na'r gweithiwr nodweddiadol yng Nghymru a Phrydain Fawr, mae'r cyflog am swyddi yn Arfon yn uwch o lawer. Mae hyn yn rhannol oherwydd natur yr economi leol:

- Mae'r cyflog wythnosol canolrifol ar gyfer swyddi yn Arfon yn £642.40, o'i gymharu â £583.40, sef y cyflog wythnosol canolrifol ar gyfer gweithwyr sy'n byw yn Arfon. Mae'r cyflog canolrifol ar gyfer swyddi yn Arfon yn uwch na chanolrif Cymru ac yn cyd-fynd â chanolrif Prydain Fawr.
- O'r 31,000 o swyddi gweithwyr yn Arfon yn 2021, roedd dros 60 y cant wedi'u crynhoi mewn pedwar diwydiant:
    - Gweithgareddau Iechyd Pobl a Gwaith Cymdeithasol
    - Addysg
    - Masnach Manwerthu a Chyfanwerthu; Atgyweirio Cerbydau Modur a Beiciau Modur
    - Gweinyddiaeth Gyhoeddus ac Amddiffyn; Nawdd Cymdeithasol Gorfodol
- Mae'r crynodiad o swyddi yn y diwydiannau hyn yn Arfon yn deillio o'r ffaith bod tri sefydliad cyhoeddus mawr wedi'u lleoli yno:
    - Prifysgol Bangor,
    - Cyngor Gwynedd,
    - Ysbyty Gwynedd.
- Mae'n ymddangos bod llawer o bobl sydd mewn swyddi ar gyflogau uwch yn y sefydliadau hyn yn cymudo i mewn ac allan o Arfon, tra mae llawer o bobl sy'n byw yn yr etholaeth yn cael eu cyflogi mewn swyddi sy'n talu cyflogau isel yn y

diwydiannau hyn ac yn yr economi ehangach. Mae gan chwarter yr holl bobl sy'n byw yn Arfon (24.6 y cant) swyddi gofalu a hamdden neu waith mewn galwedigaethau elfennol, ee glanhau, o'i gymharu ag 17.5 y cant ar draws Prydain Fawr.

Yn ail, mae pobl sy'n byw yn Arfon yn wynebu premiwm costau byw. Mae premiwm costau byw Arfon yn golygu bod aelwydydd yn wynebu:

- Costau tai uchel – gallai'r person cyffredin ddisgwyl i brisiau tai fod tua 5.7 gwaith eu henillion blynyddol yn Arfon (o'i gymharu â 6.1 gwaith ledled Cymru), gyda rhent cymdeithasol yn cyfrif am 33 y cant o incwm chwarter tlotaf y boblogaeth (o'i gymharu â 28% ledled Cymru).
- Costau ynni uchel – mae cartrefi yn Arfon ymysg y rhai mwyaf aneffeithlon o ran ynni ar draws Prydain Fawr ac maen nhw ymysg y rhai mwyaf costus i'w gwresogi.
- Costau cludiant uchel – mae trafnidiaeth gyhoeddus yn Arfon yn ddrud ac yn anodd cael gafael arni, sy'n effeithio ar allu pobl i weithio a chael gafael ar wasanaethau.
- Costau bwyd uchel – gall mynd i archfarchnadoedd fod yn her i bobl heb fynediad at geir y tu allan i Fangor a Chaernarfon. Mae Pen-y-groes a Dyffryn Nantlle ymysg y 10 y cant uchaf o 'anialdiroedd bwyd' yng Nghymru a Lloegr.
- Anhawster cael gafael ar ofal plant – mae gofal plant yn Arfon yn ddrud, fel y mae mewn rhannau eraill o Gymru, ac ar ben hyn, gall fod yn heriol iawn dod o hyd i ofal plant sydd ar gael mewn cymunedau y tu allan i Fangor a Chaernarfon.

Mae effaith tlodi yn Arfon hefyd yn wahanol o'i gymharu â mannau eraill yng Nghymru. Mae'n ymddangos bod stigma yn broblem amlwg mewn rhai cymunedau, yn enwedig rhai o'r trefi a'r pentrefi o amgylch Bangor a Chaernarfon.

## Atebion

Mae cryfderau sylweddol yn Arfon y gellir adeiladu'r ymateb i dlodi arnyn nhw. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Amlygrwydd mentrau cymdeithasol yn yr etholaeth. Mae'r mentrau cymdeithasol hyn yn creu cyfleoedd gwaith yn lleol mewn ffordd sy'n cadw cyfoeth yn y gymuned.
- Cymunedau gweithgar iawn. Mae nifer o gynlluniau gwirfoddol a chymunedol ar waith ar draws yr etholaeth gyda phobl yn gweithredu i fynd i'r afael â thlodi yn y cymunedau.

Nid oes un ateb penodol i dlodi yn Arfon. Bydd lleihau'r caledi a wynebir gan gymunedau ar draws yr etholaeth yn cymryd amser ac ni fydd yn digwydd dros nos. Fodd bynnag, mae newid yn bosibl. Mae casgliad yr adroddiad yn nodi cyfres o argymhellion a allai, pe baen nhw'n cael eu gweithredu, leihau tlodi yn yr etholaeth a rhoi'r gymuned ar y llwybr tuag at ddyfodol mwy llewyrchus. Mae'r rhain wedi'u rhannu'n gamau gweithredu sy'n ymwneud â'r economi a chamau gweithredu sy'n ymwneud â chostau.

### Cryfhau'r economi

Er mwyn mynd i'r afael â chyflogau isel yn Arfon rydym yn argymell y canlynol:

- Dylai Prifysgol Bangor, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr a Chyngor Gwynedd weithio mewn partneriaeth â chymunedau yn Arfon i archwilio sut y gallan nhw wella mynediad at y rolau ar gyflogau uwch yn eu sefydliadau.
- Dylai Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr a Chyngor Gwynedd ddod yn gyflogwyr cyflog byw achrededig.
- Dylai rhanddeiliaid lleol weithio gyda busnesau lleol a chyflogwyr i lansio Ymgyrch Cyflog Byw i gynyddu nifer y cyflogwyr cyflog byw achrededig sydd yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus yn Arfon.

Er mwyn cryfhau cymunedau lleol, rydym yn argymell canolbwyntio ar adeiladu cyfoeth cymunedol. I gyflawni hyn:

- Dylai Cyngor Gwynedd a rhanddeiliaid ddefnyddio eu pwerau cynnull i drefnu fforymau rheolaidd lle gall mentrau cymdeithasol a busnesau bach lleol gwrdd â'r sefydliadau cyhoeddus allweddol yng Ngwynedd a busnesau mwy. Gallai gwneud hynny hwyluso'r gwaith o ddatblygu rhwydweithiau a allai alluogi mentrau cymdeithasol a busnesau bach i dendro eu gwasanaethau i rai o'r sefydliadau mawr yn yr awdurdod lleol, gan gefnogi eu twf.
- Dylai Prifysgol Bangor, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr a Chyngor Gwynedd a sefydliadau mawr eraill ychwanegu elfen adeiladu cyfoeth cymunedol at eu holl ddogfennau tendro, gan sicrhau bod y manteision cymunedol ehangach a ddarperir gan fentrau cymdeithasol a busnesau bach lleol yn cael eu hystyried wrth dendro am waith.
- Dylai Cyngor Gwynedd weithio gyda phartneriaid i ddatblygu cronfa mentrau cymdeithasol. Gellid defnyddio'r gronfa hon i gefnogi menter gymdeithasol newydd sy'n cyflwyno achos cryf ynghylch sut y gallai eu busnes fod o fudd i'r gymuned, neu i helpu menter gymdeithasol sydd eisoes yn bodoli i fuddsoddi mewn nwyddau neu wasanaethau a fyddai'n ei galluogi i weithredu'n fwy cynaliadwy.

Er mwyn cefnogi twristiaeth gynaliadwy, mae Cyngor Gwynedd a rhanddeiliaid wedi cymeradwyo eu Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 yn ddiweddar. Dylid adolygu'r Cynllun hwn yn gyson a'i ddiwygio os oes angen er mwyn sicrhau bod y diwydiant twristiaeth yn gweithio er budd y cymunedau yn Arfon.

Hyd yn oed os caiff yr economi yn Arfon ei datblygu dros y blynyddoedd nesaf mewn ffordd sy'n cynnig mwy o fanteision i gymunedau, bydd angen cryfhau'r system nawdd cymdeithasol o hyd er mwyn sicrhau ei bod yn rhoi rhwyd ddiogelwch i bawb.

Mae llawer o'r ffactorau allweddol sy'n galluogi cryfhau'r system nawdd cymdeithasol yn dal i fod yn San Steffan. Mae'n hanfodol bod gwaith yn parhau i lobïo Llywodraeth y DU i sicrhau bod budd-daliadau'n rhoi lefelau digonol o gefnogaeth i bobl. Ar lefel Cymru, mae Sefydliad Bevan wedi galw ar Lywodraeth Cymru ers tro i sefydlu System Budd-daliadau Gymreig er mwyn dod â'r lwfansau a'r grantiau datganoledig presennol at ei gilydd mewn un lle. Gallai gwneud hynny helpu i fynd i'r afael â phroblemau sy'n ymwneud â pheidio â hawlio digon o fudd-daliadau, gan roi mwy o arian ym mhocedi aelwydydd yn Arfon. Mae yna gamau y gallai Cyngor Gwynedd eu cymryd i wella ei systemau ei hun tra mae Llywodraeth Cymru yn rhoi ei system ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol (ond nid yw hon yn rhestr gyflawn):

- Dylai Cyngor Gwynedd sicrhau bod yr holl grantiau a lwfansau y mae ganddo bwerau gweinyddol drostyn nhw ar gael yn ddigidol.
- Dylai Cyngor Gwynedd geisio lleihau nifer y ffurflenni y mae'n rhaid i aelwydydd eu llenwi wrth wneud cais am gymorth.
- Dylai Cyngor Gwynedd sicrhau ei fod yn archwilio ac yn mabwysiadu arferion gorau gan awdurdodau lleol ledled Cymru i wella mynediad at fudd-daliadau.

## Lleihau'r premiwm costau byw yn Arfon

Er mwyn lleihau costau tai yn Arfon, dylai Cyngor Gwynedd wneud y canlynol:

- Ehangu ei bolisi o brynu eiddo yn ôl yn Arfon er mwyn gwella mynediad pobl leol at dai fforddiadwy.
- Ehangu gwaith cynllun peilot fforddiadwyedd ac ail gartrefi Dwyfor i gynnwys Arfon.
- Adeiladu tai cymdeithasol newydd mewn cymunedau ar draws Arfon.
- Gweithio i ddylanwadu ar ddatblygiad y Papur Gwyrdd ar Dai Digonol a Rhenti Teg i sicrhau bod gan yr awdurdod lleol yr holl adnoddau sydd eu hangen yn lleol i sicrhau bod y sector rhentu preifat yn diwallu anghenion y boblogaeth leol.

Er mwyn gwella mynediad at drafnidiaeth fforddiadwy, dylai Cyngor Gwynedd wneud y canlynol:

- Cefnogi mentrau cymdeithasol a darparwyr lleol annibynnol i ehangu'r ddarpariaeth trafnidiaeth gymunedol a thrafnidiaeth amgen.
- Archwilio a oes modd cefnogi mwy o fentrau cymdeithasol i sefydlu eu hunain fel darparwyr trafnidiaeth gymunedol mewn ardaloedd lle nad yw hyn yn digwydd yn barod.
- Gweithio gyda phartneriaid i archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno model trafnidiaeth gyhoeddus sy'n ymateb i'r galw yn yr awdurdod lleol. Dylai archwiliad o'r fath ystyried pa rôl y gallai darparwyr bysiau presennol, darparwyr trafnidiaeth gymunedol a gyrwyr tacsis ei chwarae wrth ffurfio gwasanaeth o'r fath, a sut maen nhw'n cael eu hintegreiddio i strategaethau trafnidiaeth cenedlaethol.
- Edrych ar gyfleoedd i fuddsoddi mewn teithio llesol yn Arfon, gan gynnwys gwella seilwaith a chynyddu mynediad at offer, er enghraifft, drwy sefydlu cynlluniau llogi e-feiciau.

Er mwyn lleihau costau gwresogi, dylai Cyngor Gwynedd adeiladu ar gryfderau'r dulliau sydd ganddo eisoes drwy:

- Gweithio gyda'i holl bartneriaid i ddatblygu strategaeth tlodi tanwydd ar gyfer Gwynedd gyfan. Dylai'r strategaeth hon nodi sut y bydd yr holl randdeiliaid yn y gymuned yn defnyddio'r gwahanol gyllid sydd ar gael ar hyn o bryd i wella effeithlonrwydd ynni tai yr awdurdod lleol yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Yn y tymor hwy, mae angen archwilio:

- Sut y gellir ei gwneud yn haws i gynlluniau ynni sy'n eiddo i'r gymuned gyflenwi ynni rhad yn uniongyrchol i'w cymunedau eu hunain yn hytrach nag allforio i'r Grid Cenedlaethol yn gyntaf.
- Rhoi rhwymedigaeth ar gynhyrchwyr ynni i roi difidendau cymunedol ar waith ar gyfer unrhyw gynllun newydd y maen nhw'n ei agor. Byddai hyn yn ei gwneud yn

ofynnol i gynhyrchwyr ynni rannu cyfran o'u helw gyda'r gymuned leol am y cyfnod y mae unrhyw gynllun yn gweithredu yn eu hardal.
- Sut mae buddsoddi mewn seilwaith ynni cenedlaethol, fel ehangu'r Grid Cenedlaethol, yn gweithio er budd cymunedau lleol yn Arfon.

Er mwyn sicrhau bod modd cael gafael ar wasanaethau cymunedol mewn modd fforddiadwy, credwn y dylai Cyngor Gwynedd fabwysiadu agwedd fwy strategol at Ysgolion Bro. Dylai'r awdurdod lleol geisio cynyddu'r gwasanaethau a ddarperir drwy ysgolion i gynnwys:

- Gofal plant – darpariaeth gofal plant cofleidiol a'r blynyddoedd cynnar.
- Mannau ar gyfer rhwydweithiau cynghori.
- Mannau ar gyfer timau allgymorth cymunedol.
- Darparu bwyd fforddiadwy fel pantri bwyd.
- Llyfyrgell Petha/ Library of Things
- Caffis trwsio.

Mae gwrando ar brofiadau go iawn pobl o dlodi yn hanfodol ym mhob cymuned yng Nghymru. O ystyried yr heriau unigryw y mae rhai cymunedau yn Arfon yn eu hwynebu, a'r prinder data, mae'r angen i wneud hynny yn yr etholaeth hyd yn oed yn fwy. Felly, dylai rhanddeiliaid yn yr etholaeth gydweithio i ddatblygu fforwm lle gall pobl rannu eu profiadau, gyda'u safbwyntiau'n cael eu defnyddio i lywio polisïau.

## Rhoi'r adroddiad ar waith

Nid yw tlodi yn anochel. Fel y mae'r adroddiad hwn yn ei amlygu, mae camau y gellir eu cymryd i leihau effaith tlodi yn Arfon. Er mai San Steffan sydd â'r pwerau o hyd i gyflwyno newidiadau sylweddol i'r system nawdd cymdeithasol, i'r farchnad lafur neu i wasanaethau cyhoeddus, mae camau y gellir eu cymryd yn lleol.

Dylai Cyngor Gwynedd a rhanddeiliaid lleol weithio gyda'i gilydd i weithredu'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad hwn. Drwy wneud hynny, bydd cyfleoedd i:

- Cynyddu incwm yn Arfon drwy:
    - Lansio ymgyrch cyflogau byw lleol.
    - Gwella mynediad i bobl sy'n byw yn Arfon at y swyddi sy'n talu'n well mewn sefydliadau mawr yn Arfon.
    - Gwella mynediad at y system nawdd cymdeithasol, yn enwedig mynediad at grantiau a lwfansau a weinyddir gan Gyngor Gwynedd.
- Cadw cyfoeth o fewn Arfon drwy:
    - Cefnogi datblygiad mentrau cymdeithasol.
    - Sicrhau bod y manteision cymunedol ehangach a ddarperir gan fentrau cymdeithasol a busnesau bach lleol yn cael eu hystyried gan Brifysgol Bangor, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Cyngor Gwynedd a sefydliadau mawr eraill wrth dendro am waith.
- Lleihau costau byw drwy:
    - Gwella mynediad at dai fforddiadwy.
    - Cynyddu'r ddarpariaeth o drafnidiaeth amgen.

- Datblygu dull mwy strategol o ymdrin ag Ysgolion Bro.
- Datblygu dull gweithredu cydlynol fel bod yr amrywiol gyllid sydd ar gael ar hyn o bryd i hybu effeithlonrwydd ynni tai yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol.

- Sicrhau bod lleisiau pobl sy'n byw mewn tlodi yn Arfon yn cael eu clywed drwy ddatblygu fforwm lle gall pobl rannu eu profiadau a lle gellir defnyddio eu safbwyntiau i lunio polisïau.

# 1. Cyflwyniad

Mae tlodi yn broblem ym mhob cymuned ledled Cymru. Roedd un person o bob pump (21 y cant) yn byw mewn tlodi yng Nghymru rhwng 2019-20 a 2021-22.[1] Er hyn, dim ond ychydig o ddata sydd ar gael ar dlodi o dan lefel genedlaethol, sy'n golygu y gellir anwybyddu effaith ffactorau lleol pwysig ar dlodi weithiau.

Comisiynwyd yr adroddiad hwn gan Hywel Williams AS i ddatblygu dealltwriaeth o dlodi yn Arfon ac i archwilio atebion. Mae wedi cael ei gynnal ac mae'r canfyddiadau wedi cael eu datblygu'n annibynnol gan dîm Sefydliad Bevan. Rydym yn ddiolchgar i'r llu o bobl a sefydliadau sydd wedi rhoi o'u hamser ac wedi rhannu eu syniadau â ni. Rydym hefyd yn ddiolchgar i'r unigolion sydd wedi gwneud sylwadau ar ddrafftiau cynharach o'r adroddiad hwn. Rydym wedi rhoi ystyriaeth deg i'r holl sylwadau a gawsom ac, os ydyn nhw'n berthnasol, rydym wedi'u cynnwys yn y fersiwn derfynol hon. Fodd bynnag, Sefydliad Bevan yn unig sy'n gyfrifol am y dadansoddiad a'r argymhellion a gyflwynir yma.

## 1.1 Gwybodaeth am Arfon

Mae Arfon yn etholaeth sydd wedi'i lleoli yng Ngwynedd. Mae ganddi boblogaeth o oddeutu 60,000[2] gyda'r ganolfan boblogaeth fwyaf ym Mangor, sydd â phoblogaeth o oddeutu 18,000.[3]

Mae Arfon yn etholaeth amrywiol iawn o ran ei ddaearyddiaeth. Mae'r rhan fwyaf o'r bobl yn yr etholaeth yn byw ar hyd y Fenai. Yn ogystal â Bangor, mae tua 10,000 o bobl yn byw yng Nghaernarfon,[4] gyda'r pellter byr rhwng y ddau wedi'i gysylltu'n dda. Mae rhagor o ganolfannau poblogaeth yn yr hen bentrefi cloddio llechi i'r de o'r Fenai, gan gynnwys Bethesda, Pen-y-groes, Llanberis a Deiniolen. Y tu hwnt i'r canolfannau hyn ac o'u cwmpas mae cymunedau gwledig lle mae'r etholaeth yn ymylu ar Barc Cenedlaethol Eryri.

O ran demograffeg poblogaeth Arfon, mae cyfran y boblogaeth sydd rhwng 20 a 29 oed yn llawer uwch (20 y cant) na chyfartaledd Cymru (13 y cant) neu gyfartaledd y DU (13 y cant).[5] Mae hyn o ganlyniad i leoliad Prifysgol Bangor yn yr etholaeth. Mae bron i 95 y cant (94.3) o'r boblogaeth yn Arfon yn wyn, sy'n weddol debyg i gyfartaledd Cymru,[6] tra bod cyfran y boblogaeth sydd ag anabledd yn cyd-fynd â chyfartaledd y DU (24 y cant) ond ychydig yn is na chyfartaledd Cymru (28 y cant).[7] Mae bron i ddau berson o bob tri yn Arfon (65 y cant) yn gallu siarad Cymraeg.[8] Dyma'r gyfran uchaf o unrhyw etholaeth yng Nghymru.

## 1.2 Deall tlodi yn Arfon

Ychydig iawn o ddata sydd wedi'i gyhoeddi ar gyfraddau tlodi sy'n is na'r lefel genedlaethol. Yr unig eithriad i hyn yw dadansoddiad a gyhoeddwyd gan Brifysgol Loughborough ar ran y Rhwydwaith Rhoi Diwedd ar Dlodi Plant. Yn ôl eu ffigurau diweddaraf, mae dros 2,500 o blant yn byw mewn tlodi yn Arfon, 21 y cant o'r plant sy'n byw yn yr etholaeth.[9] Yn ôl y data hwn, mae'r gyfradd tlodi plant yn Arfon ychydig yn is na chyfartaledd Cymru (28 y cant),[10] ond mae ein gwaith yn yr etholaeth yn ein harwain i gredu bod nodweddion am y profiadau y mae pobl yn yr etholaeth yn eu hwynebu sy'n golygu nad yw'r prif ddata yn cyfleu effaith tlodi yn llawn.

Drwy gyfuno amrywiaeth o ffynonellau data a sgyrsiau gydag amrywiaeth o randdeiliaid a phobl sy'n byw yn Arfon, mae'r darlun llawnach o dlodi yn llawer mwy cymhleth. Nod ein hadroddiad yw adrodd y stori hon, gan amlinellu maint tlodi yn yr etholaeth.

# 2. Yr economi yn Arfon

Mae deall cryfderau a gwendidau'r economi yn Arfon yn hanfodol er mwyn deall faint o bobl sy'n byw mewn tlodi. Mae cyfoeth o ddata sy'n rhoi cipolwg ar natur yr economi a'r farchnad lafur yn Arfon a'i iechyd yn gyffredinol.

## 2.1 Gwaith yn Arfon


Er bod cymunedau Arfon yn amrywiol iawn, dim ond pedwar diwydiant sy'n dominyddu'r farchnad lafur yn yr etholaeth. O'r 31,000 o swyddi gweithwyr a oedd wedi'u lleoli yn Arfon yn 2021, roedd dros 60 y cant (19,000) ohonynt wedi'u crynhoi mewn pedwar diwydiant:

- Gweithgareddau Iechyd Pobl a Gwaith Cymdeithasol – 8,000 o swyddi (25.8 y cant o'r holl swyddi)
- Addysg – 4,500 o swyddi (14.5 y cant)
- Masnach Manwerthu a Chyfanwerthu; Atgyweirio Cerbydau Modur a Beiciau Modur – 3,500 o swyddi (11.3 y cant)
- Gweinyddiaeth Gyhoeddus ac Amddiffyn; Nawdd Cymdeithasol Gorfodol – 3,000 o swyddi (9.7 y cant).[11]

Mae hyn yn golygu bod cyfleoedd cyflogaeth wedi'u rhannu rhwng llai o sectorau yn Arfon o'i gymharu â rhannau eraill o Gymru neu Brydain Fawr yn fwy cyffredinol. Ledled Cymru, mae'r pedwar prif ddiwydiant yn ôl nifer y swyddi yn cynrychioli 49.6 y cant o holl swyddi gweithwyr, gyda'r un peth yn wir am 45.9 y cant ar lefel Prydain Fawr.[12]

Mae'r amrywiaeth o swyddi sydd ar gael yn Arfon yn llai eang na'r hyn sydd ar gael mewn mannau eraill ac mae'r diwydiannau y mae'r swyddi hyn yn perthyn iddyn nhw'n wahanol. Mae cyfran lawer uwch o'r swyddi yn Arfon ym maes Iechyd Dynol, Addysg a Gweinyddiaeth Gyhoeddus o'i gymharu â gweddill Cymru a Phrydain Fawr.

**Siart 1 – Canran y swyddi gweithwyr yn ôl diwydiant – diwydiannau mawr yn Arfon (2021)**





Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, *Nomis, Labour Market Profile - Arfon Parliamentary Constituency* ar gael yn - https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/wpca/1929380390/report.aspx?town=arfon#tabempunemp

Y rheswm dros amlygrwydd y tri diwydiant hyn yn Arfon yw bod tri sefydliad mawr wedi'u lleoli yn yr etholaeth; Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Prifysgol Bangor a phencadlys Cyngor Gwynedd yng Nghaernarfon. Cefnogir y dadansoddiad hwn drwy edrych ar nifer y gweithwyr sector cyhoeddus yn Arfon. Roedd 11,300 o weithwyr yn y sector cyhoeddus yn Arfon yn 2021, 36.6 y cant o'r holl weithwyr yn yr etholaeth.[13] Roedd hyn yn uwch o lawer na chyfartaledd Cymru a oedd yn 25 y cant, a chyfartaledd Prydain Fawr a oedd yn 17.6 y cant.[14] Mae hyn yn golygu, o ran swyddi yn Arfon, ei fod ddwywaith yn fwy dibynnol ar swyddi yn y sector cyhoeddus na gweddill Prydain Fawr.

Mae goruchafiaeth y diwydiannau hyn yn y farchnad lafur yn golygu nad yw diwydiannau eraill sy'n bwysig mewn ardaloedd eraill mor amlwg. Dim ond 4 y cant o swyddi yn yr etholaeth sydd i'w cael yn y diwydiant gweithgynhyrchu, llai na hanner cyfartaledd Cymru.[15] Mae'r Diwydiannau Gweinyddol a Phroffesiynol a Gwyddonol hefyd yn llai pwysig yn Arfon nag ar draws Cymru gyfan ac maen nhw'n llai amlwg o lawer nag ar draws Prydain Fawr.

**Siart 2 – Canran y swyddi gweithwyr yn ôl diwydiant – diwydiannau mawr yng Nghymru / y DU (2021)**




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, *Nomis, Labour Market Profile - Arfon Parliamentary Constituency* ar gael yn - https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/wpca/1929380390/report.aspx?town=arfon#tabempunemp

Mae nodweddion yn y farchnad lafur yn Arfon nad ydynt wedi'u cynnwys yn llawn yn y data hwn, gan gynnwys hunangyflogaeth. Yn ystod y flwyddyn hyd at fis Rhagfyr 2022, roedd 4,000 o weithwyr hunangyflogedig yn Arfon, 7.3 y cant o'r holl weithwyr sy'n byw yn yr etholaeth.[16] Mae hyn yn gyfran ychydig yn is o'r gweithlu nag mewn mannau eraill, gyda 8.3 y cant o bobl yn hunangyflogedig ledled Cymru a 9.3 y cant o bobl yn hunangyflogedig ledled Prydain Fawr.[17]

Mae risg hefyd bod amlygrwydd y diwydiannau mawr hyn yn Arfon yn cuddio agweddau eraill ar yr economi leol sy'n werth eu nodi, fel rôl busnesau bach, annibynnol a phreifat. Fodd bynnag, mae tair nodwedd i'r economi yn Arfon sy'n ymddangos yn unigryw o'i gymharu â rhannau eraill o Gymru nad ydyn nhw'n cael eu cynnwys yn y data.

Yn gyntaf, pa mor bwysig yw mentrau cymdeithasol yn yr etholaeth. Erbyn hyn, mae dros 20 o fentrau cymdeithasol yn gweithredu yng Ngwynedd sy'n rhan o Cymunedoli Cyf, gan ymgymryd â gwaith mewn amrywiaeth o feysydd fel y celfyddydau, twristiaeth, y cyfryngau a manwerthu. Mae'r mentrau cymdeithasol hyn yn creu amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth i bobl leol ac maen nhw'n rhoi swyddi sy'n fwy tebygol o gynnwys telerau ac amodau teg i bobl.[18] Mae mentrau cymdeithasol yn gyfle i bobl eraill ddatblygu eu busnes eu hunain a helpu i gadw cyfoeth mewn cymunedau.

Gall effaith y mentrau cymdeithasol hyn fod yn sylweddol. Mae Galeri Caernarfon yn enghraifft bwerus o hyn.

> Menter gymdeithasol yng Nghaernarfon yw Galeri. Dechreuodd ei waith yn 1992, gan brynu ac adnewyddu eiddo gwag yng nghanol y dref i ddechrau. Mae bellach wedi adnewyddu 20 o adeiladau, gyda mwy na 50 o denantiaid yn gweithio ynddyn nhw. Roedd yr incwm a gynhyrchwyd o'r gweithgarwch hwn yn galluogi'r grŵp i adeiladu canolfan gelfyddydau yng Nghaernarfon sy'n cynnwys mannau cydweithio ar gyfer pobl a busnesau sy'n gweithio yn y diwydiant cyfryngau. Mae'r grŵp hefyd wedi datblygu gweithdai ar gyfer pobl sy'n gweithio yn y diwydiant celfyddydau yn y dref, gan alluogi pobl i adeiladu rhwydweithiau a datblygu eu busnesau. Mae gan y grŵp amrywiaeth o raglenni allgymorth hefyd, sy'n cefnogi prosiectau celfyddydol yn rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghaernarfon a thu hwnt. Amcangyfrifir bod Galeri yn cyfrannu bron i £2.5 miliwn at economi Gwynedd ac Ynys Môn,[19] gydag 85 y cant o incwm y grŵp yn cael ei gynhyrchu gan ei weithgarwch masnachol ei hun.

Yn ail, maint cymharol y cyfryngau a'r diwydiannau creadigol yn yr etholaeth. Mae Bangor a Chaernarfon yn cefnogi canolfannau celfyddydau gweithredol. Mae gan y BBC, S4C a chwmnïau cynhyrchu teledu annibynnol ganolfannau yn yr etholaeth ac mae mannau cydweithio ar gyfer gweithwyr yn y cyfryngau a'r celfyddydau. Mae'r crynodiad hwn o weithgarwch yn helpu i sefydlu rhwydweithiau, gan wneud yr etholaeth yn lle deniadol i bobl weithio ynddo a chreu cyfleoedd i bobl ifanc aros a mwynhau gyrfa werth chweil yn eu cymunedau. Mae hyn hefyd yn helpu i greu sîn ddiwylliannol ffyniannus, sy'n helpu i ddenu a chadw pobl ifanc yn Arfon. Un rheswm dros boblogrwydd y diwydiant yn Arfon yw cryfder y Gymraeg. Gyda llawer o'r cyfryngau a chwmnïau creadigol yn Arfon yn cynhyrchu cynnwys drwy gyfrwng y Gymraeg, mae'r ffaith bod 65 y cant o boblogaeth yr etholaeth yn siarad Cymraeg yn ased economaidd gwirioneddol.

Yn drydydd, mae twristiaeth yn sector pwysig nad yw'n cael sylw yn y data hwn. Nid oes amheuaeth nad yw twristiaeth yn rhan bwysig o'r economi ar draws yr etholaeth. Mae oddeutu 18,000 o bobl yn gweithio yn y diwydiant twristiaeth ar draws Gwynedd yn gyffredinol.[20] Dywedodd rhanddeiliaid wrthym fod y diwydiant twristiaeth yn chwarae rhan arbennig o bwysig yn y trefi a'r pentrefi, fel Llanberis, sydd ar gyrion y parc cenedlaethol, ond nid yw effaith y diwydiant wedi'i chyfyngu i'r ardaloedd hyn. Er bod y diwydiant yn creu nifer o gyfleoedd gwaith i'r bobl leol, mae pryderon bod llawer o'r swyddi sy'n cael eu creu yn dymhorol eu natur, gyda gwaith ar gael drwy gydol y gwanwyn a'r haf, ond llai o argaeledd dros yr hydref a'r gaeaf. Mae gan hyn oblygiadau i incwm pobl a allai roi gweithwyr mewn mwy o berygl o fyw mewn tlodi. Byddwn yn edrych yn fanylach ar hyn yn Adran 3.

## 2.2 Gwaith yn Arfon

### Pobl mewn gwaith a phobl sydd allan o waith

Mae cyfraddau cyflogaeth yn Arfon yn weddol debyg i weddill Cymru. Roedd cyfanswm o 74.2 y cant o'r boblogaeth oed gweithio yn Arfon mewn gwaith rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2022, o'i gymharu â 73.3 y cant ar draws Cymru gyfan.[21] Fodd bynnag, mae'r gyfradd gyflogaeth yn Arfon yn is na chyfartaledd Prydain Fawr, lle mae'r cyfraddau cyflogaeth yn dal yn 75.6 y cant.[22]

Er bod y cyfraddau cyflogaeth yn Arfon yn cyd-fynd yn fras â chyfartaledd Cymru a Phrydain Fawr, mae'n ymddangos bod rhai gwahaniaethau ym mhrofiadau dynion a menywod o'u cymharu â dynion a menywod mewn ardaloedd eraill. Mae dynion yn Arfon ychydig yn llai tebygol o fod mewn gwaith nag mewn mannau eraill. Mae cyfran y dynion sydd mewn gwaith yn Arfon (75.3 y cant) yn 3.6 pwynt canran yn is na chyfartaledd Prydain Fawr (78.9 y cant) ac mae hefyd yn is na chyfartaledd Cymru (76.1 y cant).[23] I'r gwrthwyneb, mae menywod yn Arfon yn fwy tebygol o fod mewn gwaith (73 y cant) na chyfartaledd Prydain Fawr (72.3 y cant) a chyfartaledd Cymru (70.5 y cant).[24]

Mae'r etholaeth hefyd yn perfformio'n weddol debyg i weddill Cymru o ran cyfran y bobl sy'n hawlio budd-daliadau diweithdra. Ym mis Mai 2023, roedd 3.1 y cant o bobl yn Arfon wedi hawlio budd-daliadau diweithdra, o'i gymharu â 3.3 y cant ledled Cymru a 3.7 y cant ledled Prydain Fawr.[25]

Mae stori debyg hefyd wrth edrych ar "anweithgarwch economaidd" h.y. pobl nad ydyn nhw'n gweithio nac yn chwilio am waith, o'i gymharu â ledled Prydain Fawr. Nid yw bron i chwarter (24.7 y cant) pobl Arfon sydd rhwng 16 a 64 oed yn economaidd weithgar o'i gymharu â 21.5 y cant ym Mhrydain Fawr a 24.4 y cant ledled Cymru.[26] Mae anweithgarwch economaidd yn Arfon yn cael ei yrru'n bennaf gan bresenoldeb Prifysgol Bangor yn yr etholaeth, gyda 41.3 y cant o'r boblogaeth economaidd anweithgar yn Arfon yn fyfyrwyr, o'i gymharu â 26.3 y cant ledled Prydain Fawr a 24 y cant ledled Cymru.[27]

Yn yr un modd â'r data ar nifer y swyddi yn Arfon, mae perygl bod y prif ddata ar gyflogaeth yn cuddio rhai profiadau yn yr etholaeth. Roedd yr holl randdeiliaid y buom yn ymgysylltu â nhw yn ystod y gwaith hwn yn mynegi pryder bod diweithdra ac anweithgarwch economaidd yn parhau i fod yn broblemau mawr mewn rhai cymunedau yn Arfon.

Mae'n ymddangos bod data diweddaraf y Cyfrifiad Poblogaeth yn ategu'r pryderon hyn. Mae rhai gwahaniaethau sylweddol o ran cyfran yr oedolion oedran gweithio (ac eithrio myfyrwyr amser llawn) a oedd mewn gwaith ym mhob ward yn Arfon. Roedd llai na 70 y cant o oedolion oedran gweithio mewn gwaith yn Nwyrain Bangor (66 y cant) a Pheblig (69 y cant) ar adeg y cyfrifiad diwethaf yn 2021.[28] I'r gwrthwyneb, roedd dros 80 y cant o oedolion oedran gweithio mewn gwaith mewn 11 ward ar draws yr etholaeth, gyda Llanwnda, Y Groeslon, Llanrug, Y Faenol a Bethel a'r Felinheli ar y brig, gyda 83 y cant o bobl mewn gwaith.[29]

Hyd yn oed y tu allan i'r ardaloedd hyn o gyflogaeth gymharol isel, mae pryderon am brofiadau pobl nad oes ganddyn nhw gar. Byddwn yn edrych ar yr heriau hyn yn fanylach yn Adran 5, ond mae'n bwysig bod yn ymwybodol mewn unrhyw drafodaeth ar y farchnad lafur y gall fod rhwystrau sylweddol sy'n gwthio unigolion i dlodi hyd yn oed mewn ardaloedd â chyflogaeth uchel.

## Y gwaith sy’n cael ei wneud gan bobl sy’n byw yn Arfon

Mae edrych ar y swyddi sydd wedi’u lleoli yn Arfon a lefelau cyflogaeth ond yn adrodd rhan o’r stori. Er mwyn cael dealltwriaeth lawn o’r farchnad lafur yn yr etholaeth, mae’n bwysig ein bod yn edrych ar y math o waith sy'n cael ei wneud gan y bobl sy’n byw yn Arfon.

Mae cyfran uwch o’r gweithlu yn Arfon yn gweithio’n rhan amser o’i gymharu â chyfartaledd Cymru a Phrydain Fawr. Roedd tua 35 y cant o weithwyr Arfon yn gweithio’n rhan amser yn 2022, o’i gymharu â 28 y cant ledled Cymru a 27 y cant ledled Prydain Fawr.[30] Mae cyflogaeth ran-amser yn cael ei gyrru’n bennaf gan fenywod yn Arfon gyda mwy o fenywod yn gweithio’n rhan amser (54 y cant) nag amser llawn (46 y cant).[31]

Mae gan gyfran uwch o’r gweithlu yn Arfon swyddi heb fod yn rhai parhaol o’i gymharu â chyfartaledd Cymru a Phrydain Fawr. Ar draws Arfon, roedd 8 y cant o’r holl bobl mewn cyflogaeth yn cael eu cyflogi mewn swyddi nad ydyn nhw’n barhaol yn y flwyddyn hyd at fis Rhagfyr 2021.[32] Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd Cymru o 6 y cant a chyfartaledd Prydain Fawr o 5 y cant.[33]

Nid yw argaeledd swyddi rhan amser a swyddi nad ydyn nhw’n barhaol yn Arfon yn broblem ynddo’i hun. Er enghraifft, ar gyfer poblogaeth myfyrwyr Bangor, yn ystod y tymor brifysgol yn unig, mae swyddi rhan-amser mewn diwydiannau fel lletygarwch yn debygol o fod yn ddeniadol iawn, gan roi’r hyblygrwydd sydd ei angen ar fyfyrwyr. Fodd bynnag, mae perygl bod awydd myfyrwyr am y math hwn o gyflogaeth yn siapio’r farchnad lafur ehangach, gyda phobl sydd am gael swydd amser llawn, neu swydd fwy diogel yn gorfod cymryd swydd nad yw'n barhaol neu swydd ran-amser gan mai dyma eu hunig opsiwn.

Mae’r tri diwydiant sy’n fwy amlwg yn Arfon nag mewn ardaloedd eraill o ran nifer y swyddi gweithwyr (Iechyd, Addysg a Gweinyddiaeth Gyhoeddus) yn darparu nifer o swyddi sy’n talu’n dda. Mae hyn yn gyfle i bobl leol ennill cyflogau da tra’n aros yn eu cymunedau. Fodd bynnag, mae’r diwydiannau hyn hefyd yn cyflogi nifer fawr o bobl mewn swyddi sy’n talu llai, gan gynnwys, er enghraifft, glanhawyr a staff gofal. Mae cyfran llawer uwch o breswylwyr Arfon yn gweithio mewn swyddi o’r fath na chyfartaledd Prydain Fawr. Mae gan chwarter yr holl bobl sy’n byw yn Arfon (24.6 y cant) swyddi gofalu a hamdden neu waith mewn galwedigaethau elfennol fel glanhau, o’i gymharu ag 17.5 y cant ar draws Prydain Fawr.[34]

Mae gan y ffaith bod cyfran mor fawr o bobl yn gweithio mewn galwedigaethau ar gyflog isel yn Arfon oblygiadau pwysig ar ddeall tlodi yn y gymuned. Nid yw’r rhan fwyaf o bobl sy’n gweithio mewn swyddi sy’n talu’n wael yn gweithio gartref, sy’n golygu bod yn rhaid iddyn nhw deithio i’w gweithle. Fodd bynnag, mae’r teithiau hyn yn tueddu i fod yn fyr iawn. Ar adeg y cyfrifiad diwethaf, roedd 57 y cant o’r bobl a oedd yn gweithio mewn swyddi gwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid, 52 y cant o’r bobl a oedd yn gweithio mewn galwedigaethau elfennol a 50 y cant o’r bobl a oedd yn gweithio mewn swyddi gofal a hamdden yn teithio llai na 10km i’r gwaith.[35] I’r gwrthwyneb, roedd yr un peth ond yn wir am draean o reolwyr a chyfarwyddwyr, 30 y cant o bobl mewn galwedigaethau proffesiynol a 24 y cant o’r bobl a oedd yn gweithio mewn galwedigaethau proffesiynol a thechnegol cysylltiol, gyda phobl yn y swyddi hyn yn llawer mwy tebygol o weithio gartref neu gymudo mwy[36] Mae hyn yn golygu bod risg y bydd llawer o’r swyddi sy’n talu’n well

yn y diwydiannau mawr yn Arfon yn cael eu cymryd gan bobl sy'n byw y tu allan i'r etholaeth.

Gallai'r twf yn nifer y bobl sy'n gweithio gartref ar ôl y pandemig hefyd gynnig rhai cyfleoedd i weithwyr yn Arfon. Roedd un person ifanc y buom yn siarad ag ef yn mynegi hyn yn glir.

> Ar hyn o bryd, mae Alex yn astudio ar gyfer TGAU. Mae'n dyheu am weithio yn y diwydiant cyfryngau fel animeiddiwr ac roedd bob amser yn teimlo y byddai'n rhaid symud i ffwrdd o Arfon i gael y cyfle i wneud hynny. Mae brawd Alex yn gweithio fel dylunydd gemau fideo a chyn Covid, roedd yn byw ym Manceinion. Yn ystod Covid, roedd brawd Alex wedi symud yn ôl i Arfon gyda'i gariad ac roedd yn gallu parhau i wneud y swydd roedd yn mwynhau ei gwneud wrth weithio gartref. Roedd wedi dewis parhau i wneud hynny ar ôl Covid. Roedd hyn yn agoriad llygaid i Alex i'r cyfleoedd a allai fod ar gael. Roedd Alex yn dal yn dymuno mynd i'r brifysgol i astudio animeiddio, ond mae bellach yn bwriadu gweithio yn y diwydiant o Arfon, yn hytrach nag o Lundain, Lerpwl neu Fanceinion.

Mae prinder data ynghylch pa mor gyffredin yw hi i bobl sy'n byw yn Arfon weithio gartref i gyflogwyr sy'n byw y tu allan i'r etholaeth. Wrth i'r economi ailaddasu ar ôl Covid, mae hon yn nodwedd o'r economi leol y gallai fod yn werth ei hailystyried yn y dyfodol.

## 2.3 Casgliad

Ar yr wyneb, gellir cymharu cryfder yr economi a'r farchnad lafur yn Arfon â rhannau eraill o Gymru ac nid yw'n sylweddol wannach na chyfartaledd Prydain Fawr. Mae ein dadansoddiad wedi tynnu sylw at rai materion sy'n sail i dlodi yn yr etholaeth.

O ran cyflogaeth, mae dau reswm sylfaenol dros fod yn bryderus. Yn gyntaf, ceir problem gyda lefelau cyflogaeth isel mewn rhai cymunedau yn yr etholaeth. Yn bwysig iawn, mae'r problemau hyn yn fwy amlwg ym Mangor a Chaernarfon, er eu bod yn agos at gyflogwyr mawr. Yn ail, efallai fod problem gyda thangyflogaeth a chyflogaeth ansicr yn yr etholaeth. Gyda chyfran uwch o bobl yn gweithio'n rhan-amser ac mewn swyddi nad ydyn nhw'n barhaol yn Arfon o'i gymharu â chyfartaledd Cymru a Phrydain Fawr, mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch a yw argaeledd gwaith o'r fath yn yr etholaeth yn ganlyniad i bobl yn dewis gweithio'n rhan-amser, neu o ganlyniad i ffactorau allanol fel diffyg swyddi amser llawn neu ddiffyg gofal plant fforddiadwy a hygyrch.

Mae presenoldeb tri sefydliad cyhoeddus mawr yn Arfon yn creu heriau a chyfleoedd yn lleol. Mae'r tri sefydliad hyn yn darparu nifer fawr o swyddi, gan greu cyfle i bobl weithio'n lleol. Fodd bynnag, fel yr amlinellwyd, er bod llawer o'r swyddi sy'n talu'n wael yn cael eu llenwi gan bobl sy'n byw'n lleol, mae perygl y bydd rhai o'r swyddi sy'n talu'n well yn cael eu llenwi gan bobl sy'n byw y tu allan i'r etholaeth.

Thema a ddaeth i'r amlwg drwy gydol ein trafodaethau yn Arfon oedd yr ymdeimlad y gallai'r tri sefydliad mawr hyn, ochr yn ochr â sefydliadau mawr eraill fel cymdeithasau tai a'r coleg addysg bellach, weithio'n well gyda chymunedau a busnesau bach ar draws Arfon i greu swyddi a chadw cyfoeth yn lleol. Enghraifft o sut gall hyn weithio'n dda yw hyb datgarboneiddio newydd Adra yng ngogledd Cymru.

> Adra yw landlord cymdeithasol mwyaf Gogledd Cymru, gyda'r gymdeithas dai'n gofalu am 6,800 o eiddo ar draws y rhanbarth. Mae llawer o'r rhain wedi'u lleoli yn Arfon. Ar ôl gweld nad oes digon o weithwyr medrus yn y diwydiant adeiladu sy'n gallu gweithio ar brosiectau datgarboneiddio, mae Adra yn gweithio gyda Travis Perkins, Grŵp Llandrillo Menai a Welcome Furniture i adfywio hen ffatri ym Mhenygroes. Fel rhan o'r gwaith adfywio, mae cyfleuster hyfforddi newydd wedi cael ei greu ar gyfer arddangos, gosod a chynnal a chadw cynnyrch a deunyddiau sy'n gysylltiedig â datgarboneiddio cartrefi. Bydd cydweithrediad o'r fath yn sicrhau bod gan Adra y gweithlu sydd ei angen arnyn nhw a bydd yn sicrhau mwy o gyfleoedd i bobl ifanc yn yr ardal gael mynediad at swyddi sy'n talu'n dda.[37]

Roedd mentrau cymdeithasol yn arbennig yn teimlo bod lle i wella cydweithio. Yn sicr, mae nifer y mentrau cymdeithasol yn un o gryfderau'r economi yn Arfon, ond roedd rhanddeiliaid yn teimlo y gellid cyflawni llawer mwy drwy fwy o gydweithio â'r prif sefydliadau. Rhannwyd y farn hon gan yr holl randdeiliaid y buom yn ymgysylltu â nhw, gydag un ohonyn nhw'n nodi bod gan Arfon:

> '...ddau sefydliad mawr [y Brifysgol a'r awdurdod lleol) a allai o bosibl ddefnyddio rhywfaint o'u pŵer gwario i geisio sicrhau newid tymor hwy yn yr economi. Drwy brynu'n lleol, cefnogi cydweithfeydd a mentrau cymdeithasol, buddsoddi mewn masnachu, cynnig telerau ac amodau da i'w gweithwyr a hefyd dangos arweiniad a pheidio â gweithio gyda busnesau nad ydyn nhw'n trin eu gweithwyr yn iawn.'

# 3. Incwm yn Arfon

Dim ond rhan o'r stori y mae deall y farchnad lafur o fewn Arfon yn ei hadrodd. Mae dros hanner y bobl sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru yn byw mewn teuluoedd sy'n gweithio.[38] Er mwyn cael dealltwriaeth lawn o dlodi yn yr etholaeth, mae angen i ni edrych ar incwm pobl hefyd. Bydd yr adran hon yn gwneud hynny mewn dwy ran. Bydd y rhan gyntaf yn edrych ar enillion pobl drwy waith a bydd yr ail ran yn edrych ar yr incwm a ddarperir gan y system nawdd cymdeithasol.

Gellir rhoi pobl Arfon mewn un o dri grŵp yn seiliedig ar eu hincwm. Mae'r grŵp cyntaf yn gwneud yn dda iawn ac yn mwynhau bywyd cyfforddus iawn. Mae'r ail grŵp yn ymdopi ond gallai newid mewn amgylchiadau eu rhoi dan bwysau. Mae'r trydydd grŵp o bobl yn ei chael hi'n anodd iawn ac ar incwm isel iawn. Bydd ein dadansoddiad yn canolbwyntio'n bennaf ar brofiadau'r trydydd grŵp hwn.

## 3.1 Enillion

Er bod nifer y bobl sy'n gweithio yn Arfon yn debyg i weddill Cymru, mae'r cyflog i weithwyr sy'n byw yn yr etholaeth yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Cyflog wythnosol gros canolrifol gweithwyr amser llawn sy'n byw yn Arfon yw £583.40 yr wythnos.[39] Mae hyn yn £20.10 yr wythnos yn llai na'r gweithiwr nodweddiadol yng Nghymru a £58.80 yr wythnos yn llai na'r gweithiwr cyfartalog ym Mhrydain Fawr. Mae hyn yn golygu bod y gweithiwr canolrifol sy'n byw yn Arfon £1,045 y flwyddyn yn dlotach na'r gweithiwr canolrifol yng Nghymru, a £3,057 y flwyddyn yn dlotach na'r gweithiwr canolrifol ym Mhrydain Fawr.

Canfyddiad difrifol arall yw bod cyflog swyddi yn Arfon yn sylweddol uwch na'r cyflog a enillir gan weithwyr sy'n byw yn Arfon. Mae'r cyflog wythnosol canolrifol ar gyfer swyddi yn Arfon yn £642.40, £59 yr wythnos yn uwch na chyflog wythnosol canolrifol pobl sy'n byw yn Arfon, yn unol â chyfartaledd Prydain Fawr.[40] Un ffactor sy'n debygol o esbonio'r anghysondeb hwn yw pobl sy'n gweithio mewn swyddi â chyflogau uwch ac sy'n byw y tu allan i Arfon. Fel y trafodwyd uchod, mae cyfran lawer uwch o weithlu Arfon yn gweithio mewn galwedigaethau sy'n talu'n wael o'i gymharu â chyfartaledd Cymru a Phrydain Fawr. Mae hyn yn awgrymu, er bod y swyddi sy'n talu'n wael yn y prif ddiwydiannau yn Arfon yn cael eu llenwi gan bobl leol, bod rhai o'r swyddi sy'n talu'n well yn cael eu llenwi gan bobl sy'n cymudo i mewn ac allan o Arfon. Gallai cynyddu mynediad at y swyddi sy'n talu'n dda yn Arfon i bobl sy'n byw yn yr etholaeth arwain at welliannau sylweddol yn eu henillion.

Mae'r gweithiwr rhan-amser canolrifol yn Arfon yn ennill £247.30 yr wythnos.[41] Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Prydain Fawr (£228.50) a chyfartaledd Cymru (£230). Ond, gyda chyfran uwch o'r gweithwyr yn gweithio'n rhan amser yn Arfon, bydd cyfran uwch o weithwyr yn ennill incwm is na'u cydweithwyr amser llawn. Mae gweithwyr rhan-amser yn cael incwm is am eu bod yn gweithio llai o oriau ac mae eu cyflog fesul awr hefyd yn llai na'u gweithwyr amser llawn yn gyffredinol. Mae'r gweithiwr rhan amser canolrifol (£11.80) yn Arfon yn ennill £4.33 yr awr yn llai na'r gweithiwr amser llawn canolrifol (£16.13).[42] Mae hyn yn cyd-fynd â'r darlun mewn mannau eraill, gyda chyflog fesul awr canolrifol y gweithiwr rhan-amser 25 y cant yn is na chyflog fesul awr canolrifol y gweithiwr amser llawn.

Dim ond rhan o'r stori y mae cyflog canolrifol yn ei hadrodd i ni. Mae llawer o weithwyr ar gyflogau is yn ennill llawer llai na'r cyflog canolrifol. Mae'r Cyflog Byw Cenedlaethol

bellach yn £10.42 yr awr, i fyny o £9.50 yr awr yn 2022/23.[43] Mae'r Cyflog Byw Cenedlaethol yn £0.48 yn llai yr awr na'r Cyflog Byw Gwirioneddol, sef y swm yr amcangyfrifir bod ei angen ar bobl i fyw.[44] Amcangyfrifir bod 11.7 y cant o bobl sydd mewn gwaith ar draws Arfon yn ennill llai na'r Cyflog Byw Gwirioneddol.[45] Mae hyn yn cyd-fynd â chyfartaledd Cymru, sef 11.8 y cant.[46] Mae'r ffaith bod un gweithiwr yn Arfon o bob deg yn ennill llai na'r cyflog byw gwirioneddol yn tynnu sylw at y cynnydd sydd i'w wneud o hyd o ran cynyddu cyflogau'r gweithwyr sy'n cael y cyflogau isaf.

Mae cyfanswm o 31 o gyflogwyr cyflog byw achrededig yn Arfon.[47] Nid yw hyn yn golygu nad oes mwy o fusnesau yn yr etholaeth sy'n talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'w holl staff, ond nid ydyn nhw wedi'u hachredu gan y Sefydliad Cyflog Byw go iawn. O'r tri sefydliad mawr yn Arfon. Dim ond un, sef Prifysgol Bangor, sy'n gyflogwr cyflog byw achrededig.[48]

Un diwydiant lle mae pryderon penodol yn lleol ynghylch cyflogau yw'r diwydiant twristiaeth. Mae'r sector lletygarwch yn enwog am gyfuno cyflogau isel ag ansicrwydd swyddi ac oriau amrywiol.[49] Mae hyn, ynghyd â natur dymhorol y diwydiant, yn golygu bod llawer o weithwyr yn cael cyflogau afreolaidd iawn sy'n rhoi gweithwyr yn y diwydiant mewn mwy o berygl o dlodi.

Mae gwaith blaenorol a wnaed gan Sefydliad Bevan wedi dangos cysylltiad cryf rhwng cyflogaeth yn y sector a thlodi, ac mae hi'n arbennig anodd osgoi cyflogau isel mewn swyddi yn y sector lletygarwch.[50] Roedd y rhain yn bryderon a gafodd eu hategu'n fawr gan randdeiliaid lleol.

## 3.2 Nawdd cymdeithasol

Dylai'r system nawdd cymdeithasol fod yn achubiaeth i bawb, gan sicrhau bod gan bawb, beth bynnag fo'u hamgylchiadau, ddigon o arian i fwynhau safon byw dda. Mae'n hysbys ers tro byd nad yw'r system nawdd cymdeithasol yn gwneud hynny. Canfu adroddiad diweddar Sefydliad Bevan, *Snapshot of poverty in winter 2023,* fod pobl sydd ar Gredyd Cynhwysol bum gwaith yn fwy tebygol o ddweud eu bod weithiau, yn aml neu bob amser yn cael trafferth fforddio'r pethau sylfaenol (38 y cant) na phobl nad ydynt ar fudd-daliadau (7 y cant).[51] Fe wnaeth rhanddeiliaid sy'n darparu gwasanaethau rheng flaen yn yr etholaeth rannu tystiolaeth a oedd yn tynnu sylw at y ffaith bod hon yn broblem sylweddol yn Arfon. Esboniodd un rhanddeiliad faint o'r defnyddwyr gwasanaeth maen nhw'n eu cefnogi sy'n aml yn brin o bres, hyd yn oed os yw eu staff wedi sicrhau'r holl gefnogaeth sydd ar gael iddyn nhw.

> 'Mae cynghorwyr yn dweud (wrth bobl maen nhw'n eu cefnogi) "nad oes digon o arian ar ddiwedd y dydd i chi fyw arno", ac maen nhw'n delio'n rheolaidd iawn â phobl sy'n ystyried lladd eu hunain, ac mae hynny'n effeithio arnyn nhw'n emosiynol. Oherwydd bod gan bobl gyllideb negyddol. Nid yw hynny'n bwysig. Nid yw'n gwneud dau a dau. Nid yw'n gwneud synnwyr.'

Bydd yr adran hon yn edrych ar y problemau sy'n cael eu creu gan y system nawdd cymdeithasol yn Arfon mewn dwy ran. Bydd y rhan gyntaf yn amlinellu'r data ar bwy sy'n cael budd-dal nawdd cymdeithasol, a bydd yr ail ran yn symud ymlaen i edrych yn fanylach ar rai o'r problemau sy'n wynebu pobl sy'n cael budd-daliadau.

## Pa fudd-daliadau y mae pobl yn eu derbyn?

Er mwyn deall y system nawdd cymdeithasol yn Arfon, mae'n bwysig edrych ar y Credyd Cynhwysol a'r hen fudd-daliadau. Mae Credyd Cynhwysol yn fudd-dal nawdd cymdeithasol sy'n cael ei gyflwyno ledled y DU. Mae'n disodli chwe budd-dal a chredyd treth sy'n seiliedig ar brawf modd, a elwir yn hen fudd-daliadau. O fis Tachwedd 2022 ymlaen, amcangyfrifir bod y broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol wedi'i chwblhau 66 y cant yn Arfon, gyda 4,456 o aelwydydd ar Gredyd Cynhwysol a 2,296 o aelwydydd yn dal i gael yr hen fudd-daliadau.[52]

Wrth edrych ar unigolion sydd ar Gredyd Cynhwysol, roedd 5,068 o bobl yn cael Credyd Cynhwysol yn Arfon ym mis Tachwedd 2022.[53] Nid oedd y mwyafrif (59 y cant) mewn gwaith. O blith y bobl a oedd ar Gredyd Cynhwysol yn Arfon ac a oedd mewn gwaith, roedd 34 y cant yn gorfod chwilio am waith ychwanegol, ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 31 y cant. I'r rhai nad oedden nhw mewn gwaith, nid oedd yn rhaid i 46 y cant chwilio am waith, oherwydd salwch neu gyfrifoldebau gofalu.[54] Mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru, sef 53 y cant.[55]

Mae'r mwyafrif helaeth o aelwydydd yn Arfon sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn aelwydydd un oedolyn, neu'n aelwydydd un oedolyn gyda phlant. Mae bron i hanner yr holl aelwydydd yn Arfon sydd ar Gredyd Cynhwysol (1,859) yn aelwydydd un oedolyn, tra bo mwy nag un o bob tri (1,379) yn aelwydydd un oedolyn gyda phlant.[56] Dim ond 434 o aelwydydd cwpl sydd â phlant ar Gredyd Cynhwysol yn Arfon, a 135 o aelwydydd cwpl heb blant.[57] Efallai nad yw'n syndod mai menywod yw'r rhan fwyaf sy'n cael Credyd Cynhwysol yn Arfon (2,818).[58]

O'r 34 y cant o bobl a oedd yn dal i gael yr hen fudd-daliadau yn Arfon o fis Tachwedd 2022 ymlaen, ychydig iawn oedd yn geiswyr gwaith, gyda dim ond 62 o aelwydydd lle roedd ceisiwr gwaith yn dal i gael hen fudd-daliadau yn Arfon o fis Tachwedd 2022 ymlaen.[59] Nid yw'r broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol i aelwydydd lle nad yw rhywun yn gallu gweithio oherwydd cyfrifoldebau iechyd neu ofalu, wedi cael ei datblygu cymaint. Dim ond 47 y cant o aelwydydd a oedd yn hawlio budd-dal "analluogrwydd" oedd ar Gredyd Cynhwysol.[60] Ym mis Tachwedd 2022, roedd 1,061 o aelwydydd yn dal i gael hen fudd-dal sy'n gysylltiedig ag "analluogrwydd".[61] Mae'r cynnydd wrth gyflwyno'r Credyd Cynhwysol ymysg aelwydydd â phlant yn adlewyrchu'n agos y cynnydd cyffredinol sydd wedi bod wrth gyflwyno'r Credyd Cynhwysol. Mae cyfanswm o 68 y cant o aelwydydd sy'n hawlio budd-daliadau sy'n ymwneud â phlant wedi cwblhau'r broses o symud i Gredyd Cynhwysol. Roedd 900 o aelwydydd o'r fath yn dal i hawlio hen fudd-daliadau ym mis Tachwedd 2022.[62]

Un budd-dal olaf y mae'n werth ei archwilio yw Credyd Pensiwn. Mae Credyd Pensiwn yn darparu cymorth ychwanegol i bobl dros oedran pensiwn y wladwriaeth ac sydd ar incwm isel. Roedd cyfanswm o 1,623 o bensiynwyr ar Gredyd Pensiwn yn Arfon o fis Tachwedd 2022 ymlaen.[63] Mae'n hysbys bod Credyd Pensiwn yn fudd-dal nad yw llawer o bobl sy'n gymwys i gael cymorth yn ei hawlio. Fel y dywedodd un rhanddeiliad:

> 'Mae credyd pensiwn yn enghraifft glasurol o hyn... mae cyfran y bobl sydd â hawl i gredyd pensiwn ond sydd ddim yn ei gymryd oherwydd eu bod yn meddwl "dydy hwn ddim i mi, dydw i ddim ar fudd-daliadau, mi wna i ddal ati i grafu byw" mor uchel, felly mae'n broblem enfawr.'

## Beth yw'r heriau sy'n wynebu pobl sy'n cael budd-daliadau?

Nododd rhanddeiliaid y buom yn siarad â nhw yn ystod ein prosiect dri mater allweddol yn ymwneud â'r ffordd y mae'r system nawdd cymdeithasol yn gweithredu yn Arfon. Mae'r materion hyn yn debyg yn fras i'r rheini a wynebir gan gymunedau ledled y DU.

Yn gyntaf, ac efallai yr un pwysicaf, nid yw gwerth y cymorth a ddarperir drwy'r system fudd-daliadau yn ddigonol. Dywedodd yr holl randdeiliaid sy'n cynnig gwasanaethau rheng flaen eu bod yn ceisio cefnogi pobl lle mae eu costau byw hanfodol yn uwch na'u hincwm. Mae hyn yn adleisio rhai o ganfyddiadau diweddar y gwaith a wnaed gan Sefydliad Joseph Rowntree ac Ymddiriedolaeth Trussell a welodd fod lwfans sylfaenol y Credyd Cynhwysol yn £35 yr wythnos yn llai na'r hyn sydd ei angen ar berson sengl i fforddio'r holl hanfodion a £66 yr wythnos yn llai i aelwydydd cwpl.[64] Mae llawer o wasanaethau rheng flaen yn Arfon mewn sefyllfa amhosibl wrth geisio cefnogi pobl mewn amgylchiadau o'r fath.

> 'Rydym yn gwneud nifer o bethau. Rydym yn edrych i weld a oes rhai cronfeydd y gall pobl gael arian ohonyn nhw. Gallwn eu helpu i gael talebau banc bwyd a thalebau tanwydd. Gallwn wneud cais i'r Gronfa Cymorth Dewisol. Mae ambell beth, ond dim ond rhoi plastr dros friw yw hyn.'

Yn ail, mae'r broses o gael budd-daliadau yn anodd. Mae'n rhaid i bobl sy'n gymwys i gael cymorth drwy'r system fudd-daliadau gyflwyno nifer o ffurflenni cais i gael yr ystod lawn o gymorth y mae ganddyn nhw hawl iddo, gyda'r broses yn aml yn fiwrocrataidd ac yn anodd. Mae llawer o bobl yn ei chael hi'n anodd cwblhau'r broses hon eu hunain ac felly'n troi am gyngor gan grwpiau cymunedol a mudiadau trydydd sector fel Cyngor ar Bopeth. Mae hyn yn ei dro yn rhoi pwysau ychwanegol ar eu hadnoddau, sy'n golygu eu bod yn gallu cefnogi llai o bobl nag y bydden nhw'n dymuno.

Gallai gwella mynediad at rai o'r budd-daliadau sydd dan reolaeth yr awdurdod lleol hefyd hwyluso'r broses o gael gafael ar gymorth. Er enghraifft, clywsom gan aelod o staff gydag un landlord cymdeithasol, er bod modd i rywun wneud cais ar-lein am y Taliad Disgresiwn at Gostau Tai yng Nghonwy, byddai'n rhaid i hawlydd yng Ngwynedd lenwi ffurflen ysgrifenedig a oedd yn fwy nag 20 tudalen o hyd. Byddai gwneud hynny nid yn unig yn lleihau llwyth gwaith gweinyddol ond gallai helpu i roi mwy o arian ym mhocedi pobl. Canfu ymchwil ddiweddar gan Policy in Practice fod £19 biliwn ddim yn cael ei hawlio o system nawdd cymdeithasol y DU bob blwyddyn.[65] Ac amcangyfrifwyd y gallai gwella mynediad at "Fudd-daliadau Cymru" roi £75m ychwanegol ym mhocedi teuluoedd Cymru.[66]

Yn drydydd, mae'r cymorth sydd eisoes yn annigonol i deuluoedd sy'n derbyn budd-daliadau yn cael ei leihau hyd yn oed ymhellach gan nodweddion y system fudd-daliadau. Mae'n bosib y bydd symiau'n cael eu didynnu o daliad budd-dal aelwyd, er enghraifft, os nad yw hawlydd wedi cydymffurfio â gofynion y budd-dal neu i ad-dalu dyledion. Mae'r symiau sy'n cael eu didynnu'n lleihau incwm hawlydd hyd yn oed ymhellach o dan y trothwy tlodi, yn enwedig os bydd sawl swm yn cael ei ddidynnu oddi ar yr hawlydd.

Un ffordd o leihau budd-daliadau rhywun yw drwy dynnu arian o daliad Credyd Cynhwysol aelwyd i ad-dalu benthyciadau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau wrth aros am daliad budd-dal neu i ad-dalu i Gyllid a Thollau EM am ordaliad credydau treth. Gellir didynnu symiau hefyd i dalu dyledion megis ôl-ddyledion rhent neu dreth gyngor a

dirwyon llys. Mae modd didynnu hyd at 25% o fudd-dal rhywun. Er na chyhoeddir data swyddogol ar symiau sy'n cael eu didynnu, amcangyfrifodd y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant, ym mis Tachwedd 2021, fod arian wedi cael ei dynnu'n awtomatig oddi ar fudd-daliadau dros bedwar o bob deg (42%) o aelwydydd a oedd yn cael Credyd Cynhwysol. Os yw'r un peth yn wir yn Arfon, yna mae dros 1,600 o aelwydydd lle nad ydyn nhw'n cael eu Credyd Cynhwysol llawn.

Ffordd arall o leihau budd-daliadau pobl yw drwy'r cap ar fudd-daliadau. Mae hyn yn cyfyngu ar y swm y gall pobl ei gael yn y rhan fwyaf o fudd-daliadau nawdd cymdeithasol sy'n seiliedig ar incwm.[67] Yn 2022-23, gosodwyd y cap ar £257.69 yr wythnos ar gyfer un oedolyn a £384.62 yr wythnos ar gyfer unig riant a phlentyn neu gwpl oedolion. Mae nifer yr aelwydydd y mae'r cap ar fudd-daliadau yn Arfon yn effeithio arnyn nhw'n dal yn isel, gyda 68 o aelwydydd yn Arfon yn cael llai na'u hawl lawn i fudd-daliadau oherwydd y cap ym mis Awst 2022.[68] Mae'r un peth yn wir am sancsiynau budd-daliadau. Gall pobl sy'n cael Credyd Cynhwysol hefyd weld eu cymorth yn lleihau os nad ydyn nhw'n bodloni'r gofynion a nodir mewn 'ymrwymiad hawlydd'. Os nad ydyn nhw'n bodloni pob gofyniad heb reswm da, efallai y byddan nhw'n wynebu cosb, hynny yw, byddan nhw'n colli eu budd-dal am hyd at chwe mis. Ym mis Tachwedd 2022, roedd sancsiwn ar gyfer 1.9% o hawlwyr Credyd Cynhwysol yn Arfon, sef 96 o bobl.

Roedd pryderon penodol hefyd ymysg rhanddeiliaid ynghylch rhai o'r heriau sy'n wynebu gweithwyr tymhorol. Dangoswyd y rhain yn glir gan enghraifft ddamcaniaethol a rannwyd â ni gan un rhanddeiliad.

> Mae Iwan yn berson ifanc sy'n byw ac yn gweithio yn Llanberis. Mae'n gweithio'n dymhorol yn y diwydiant twristiaeth ac mae ar incwm isel. Gan ei fod ar incwm isel, mae Iwan yn cael cymorth drwy Gredyd Cynhwysol i ychwanegu at ei gyflog. Ond, gan fod ei gyflog yn gallu amrywio'n sylweddol drwy gydol y flwyddyn, mae maint y cymorth mae Iwan yn ei gael drwy Gredyd Cynhwysol hefyd yn newid. Gall taliadau Credyd Cynhwysol Iwan amrywio gannoedd o bunnoedd o fis i fis, sy'n golygu ei bod yn anodd iawn iddo reoli ei arian.

Clywsom gan randdeiliaid amrywiol fod angen cymorth yn aml ar weithwyr fel Iwan i reoli dyledion, neu fod angen iddyn nhw allu defnyddio banciau bwyd oherwydd yr heriau sydd yn eu hwynebu gydag incwm afreolaidd.

## 3.3 Casgliad

Yn ddi-os, mae problem gydag incwm isel yn Arfon, gyda'r cyflog canolrif i weithwyr sy'n byw yn Arfon yn is o lawer na chyfartaledd Cymru a Phrydain Fawr, ac mae diffygion y system nawdd cymdeithasol yn boenus o amlwg. Un pryder penodol yw'r ffaith bod un o bob deg gweithiwr yn Arfon yn ennill llai na'r Cyflog Byw Gwirioneddol, ac mae hyn yn eu rhoi mewn perygl arbennig o uchel o fyw mewn tlodi. Fodd bynnag, nid yw'r broblem incwm isel i'w gweld ymhob man ar draws yr etholaeth. Ardaloedd Bangor a Chaernarfon sydd â'r cyfraddau cyflogaeth isaf ac sydd hefyd â'r incwm isaf.[69]

Mae'r ffaith bod yr incwm canolrifol ar gyfer swyddi yn Arfon yn sylweddol uwch nag incwm gweithwyr sy'n byw yn Arfon yn awgrymu rhai atebion posibl. Gallai gwella mynediad at rai o'r swyddi sy'n talu'n well yn Arfon i bobl sy'n byw yn Arfon roi hwb i incwm ar draws yr etholaeth.

Dim ond rhan o'r ateb y gall hyn fod. Bydd y sefydliadau mawr yn Arfon yn parhau i ofyn am lanhawyr, swyddogion diogelwch a staff eraill mewn swyddi galwedigaethol. Hyd yn oed os bydd llwybrau'n agor i rai fynd i swyddi sy'n talu'n uwch, bydd cyflogwyr yn galw o hyd am staff mewn swyddi o'r fath. Felly, mae cymryd camau i gynyddu nifer y cyflogwyr cyflog byw achrededig yn yr etholaeth yn hanfodol, gan roi hwb i'r rheini sydd ar yr incwm isaf, gan sicrhau eu bod yn ennill cyflog teg am eu gwaith.

Hyd yn oed pe byddai camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r farchnad lafur yn Arfon, byddai gwendidau'r system nawdd cymdeithasol yn parhau i wthio pobl i dlodi. Mae llawer o'r ffactorau allweddol i fynd i'r afael â'r materion hyn yn dal i fod yn San Steffan, ond mae rhai camau y gellid eu cymryd ar lefel Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i hybu incwm pobl drwy'r system nawdd cymdeithasol. Bydd y rhain yn cael eu harchwilio'n fanylach yn y casgliad.

# 4. Tai ac ynni

Costau tai uchel yw un o'r prif ffactorau sy'n achosi tlodi. Mae nodweddion penodol yn y farchnad dai yn Arfon a allai ei wneud yn ffactor arbennig o bwysig. Mae costau ynni uchel yn gwaethygu'r heriau hyn. Bydd yr adran hon yn ystyried sut mae'r ffactorau hyn yn rhyngweithio â'i gilydd, gan ganolbwyntio ar eu perthynas â thlodi yn yr etholaeth.

## 4.1 Ble mae pobl yn byw?

Mae'r rhan fwyaf o aelwydydd yn Arfon yn byw mewn eiddo i berchen-feddianwyr. Adeg cyfrifiad 2021, roedd cyfanswm o 15,230 o aelwydydd yn byw yn y sector perchen-feddianwyr, sy'n 62 y cant o holl aelwydydd yr etholaeth.[70] Mae hyn ychydig yn is na'r cyfartaledd ledled Cymru, lle roedd 66 y cant o aelwydydd yn berchen-feddianwyr.


O'r rhai sy'n byw yn y sector eiddo i berchen-feddianwyr, mae 8,935 yn berchen ar eu cartref yn llwyr (37 y cant o'r holl aelwydydd yn Arfon) gan olygu mai dyma'r ddeiliadaeth tai fwyaf yn yr etholaeth.[71] Cyfanswm yr aelwydydd sy'n berchen ar eu heiddo gyda morgais yw 6,295 (26 y cant o'r holl aelwydydd).[72]

Gan fod y sector perchen-feddianwyr yn Arfon yn llai na chyfartaledd Cymru, nid yw'n syndod bod y sector rhentu'n fwy. Mae cyfanswm o 9,101 o aelwydydd yn byw mewn llety rhent yn Arfon, sy'n 37 y cant o'r holl aelwydydd, wrth gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 33 y cant.[73] Dylid nodi bod y data hwn yn cynrychioli holl boblogaeth yr etholaeth adeg y cyfrifiad diwethaf, a'i fod felly'n cynnwys myfyrwyr.

Mae sector rhentu mwy Arfon yn cael ei ysgogi'n bennaf gan sector tai cymdeithasol sy'n fwy na chyfartaledd Cymru. Yn yr etholaeth, mae 4,794 o aelwydydd yn byw yn y sector rhentu cymdeithasol, sy'n 20 y cant o'r holl aelwydydd.[74] Mae hyn dri phwynt canran yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 17 y cant.[75]

Mae 4,307 o aelwydydd yn byw yn y sector rhentu preifat yn Arfon (18 y cant).[76] Mae hyn yn wahaniaeth pwysig arall rhwng tai yn Arfon ac yng ngweddill Cymru. Ledled Cymru yn gyffredinol, yng nghyfrifiad 2021 roedd nifer yr aelwydydd a oedd yn byw yn y sector rhentu preifat (228,642) yn fwy na nifer yr aelwydydd a oedd yn byw yn y sector rhentu cymdeithasol (222,093).[77] Mae'r sector rhentu cymdeithasol yn dal yn fwy na'r sector rhentu preifat yn Arfon.

**Siart 3 – Cyfran yr aelwydydd yn ôl deiliadaeth tai (2021)**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Sefydliad Bevan o ddata Cyfrifiad 2021, ar gael drwy Nomis

Mae'r ffaith bod cyfran fwy o aelwydydd yn Arfon yn rhentu yn arwain at oblygiadau pwysig i dlodi yn yr etholaeth. Mae rhentwyr yn llawer mwy tebygol o fyw mewn tlodi na pherchen-feddianwyr. Ledled Cymru, mae bron i hanner yr holl rentwyr cymdeithasol (48 y cant) yn byw mewn tlodi, gyda 41 y cant o rentwyr preifat yn byw mewn tlodi.[78] Ar y llaw arall, dim ond 13 y cant o'r perchen-feddianwyr sy'n byw mewn tlodi.[79] Os yw'r un patrwm yn cael ei ailadrodd yn Arfon, mae'n rhesymol tybio bod cyfraddau tlodi yn yr etholaeth yn debygol o fod yn uwch na chyfartaledd Cymru.

## 4.2 Fforddiadwyedd tai yn Arfon

Yn ein holl drafodaethau gyda rhanddeiliaid yn Arfon, roedd diffyg tai fforddiadwy, boed y rhain yn eiddo rhent neu'n eiddo i berchen-feddianwyr, yn bryder mawr. Mae'r data sydd ar gael yn awgrymu bod rheswm da dros y pryderon hyn.

Mae prisiau tai yn Arfon ychydig yn rhatach na chyfartaledd Cymru. Yn Arfon, £162,500 oedd pris cyfartalog tŷ ym mis Mehefin 2022 – roedd cyfartaledd Cymru yn £182,000.[80] Oherwydd bod enillion yn is yn yr etholaeth, mae bod yn berchen ar eich cartref yn dal yn rhywbeth anfforddiadwy, er bod y costau'n is. Hefyd, mae prisiau tai yn amrywio'n sylweddol ar draws Arfon. Yn "Ninas Bangor" y mae'r pris tŷ canolrifol rhataf yn yr etholaeth, lle roedd y tŷ canolrifol yn costio £133,000 ym mis Mehefin 2022, wrth gymharu â Dwyrain Caernarfon lle roedd y prisiau'n £199,975.[81]

Ar draws Arfon, gallai'r person cyffredin ddisgwyl i brisiau tai fod tua 5.7 gwaith eu henillion blynyddol.[82] Er bod hyn ychydig yn is na chyfartaledd Cymru (6.1), mae bod yn berchen ar eu cartref yn rhywbeth sydd y tu hwnt i gyrraedd llawer o bobl o ganlyniad i hynny.

I'r rheini sy'n cael trafferth prynu eiddo, nid yw pethau lawer yn haws yn y sector rhentu. Oherwydd prinder data, mae'n anodd creu darlun o'r holl farchnad rhentu preifat yn Arfon, ond mae'n amlwg bod y sefyllfa'n anodd iawn i'r rheini ar yr incwm isaf.


Y Lwfans Tai Lleol yw'r mecanwaith a ddefnyddir i bennu faint o gymorth y mae gan aelwyd incwm isel sy'n rhentu yn y sector rhentu preifat hawl i'w gael tuag at gost eu rhent drwy Fudd-dal Tai neu elfen tai Credyd Cynhwysol. Mae'r Lwfans Tai Lleol i fod i gael ei osod ar 30ain canradd y rhenti, ond mae ymchwil ddiweddar gan Sefydliad Bevan wedi dangos bod hyn ymhell o fod yn wir, oherwydd cyfuniad o ffactorau.

Yn ôl data a gasglwyd gan Sefydliad Bevan rhwng 3 ac 17 Chwefror, dim ond 10 eiddo ar draws Gwynedd gafodd eu hysbysebu i'w rhentu ar gyfraddau'r Lwfans Tai Lleol neu'n is na hynny – 5.3 y cant o'r holl eiddo a restrwyd ar y farchnad.[83] O'r 10 eiddo hyn, roedd wyth ohonyn nhw yn Arfon. Nid tenantiaid newydd neu denantiaid sy'n dymuno symud yw'r unig rentwyr sy'n wynebu heriau o ganlyniad i'r Lwfans Tai Lleol. Ym mis Medi 2022, roedd 746 o aelwydydd yn Arfon yn derbyn elfen tai y Credyd Cynhwysol ac yn byw yn y sector rhentu preifat.[84] O blith y rhain, nid oedd rhent 544 ohonyn nhw (73 y cant) yn cael ei dalu'n llawn, gan fod y gyfradd Lwfans Tai Lleol yn is na'u rhent.[85] Mae aelwydydd o'r fath yn wynebu risg uwch o lawer o fyw mewn tlodi, gan fod arian y dylid ei ddefnyddio i dalu am gostau hanfodol eraill, fel gwres a bwyd, yn gorfod cael ei ailgyfeirio i dalu eu rhent.

Mae rhentwyr cymdeithasol hefyd yn wynebu heriau sylweddol o ran fforddiadwyedd tai yn Arfon. Fel arfer, mae rhenti'n cael eu hystyried yn anfforddiadwy os yw aelwydydd yn gwario mwy nag 25% o'u hincwm ar rent. Roedd yr aelwyd tai cymdeithasol gyfartalog

yng Ngwynedd wedi gwario £98.06 yr wythnos ar rent cymdeithasol yn 2022/23.[86] Mae hyn ychydig yn is na chyfartaledd Cymru, sef £101.01. Er bod rhenti cymdeithasol yng Ngwynedd ychydig yn rhatach na chyfartaledd Cymru, mae rhenti cymdeithasol yn cyfrif am gyfran uwch o enillion wythnosol y chwartel isaf o enillwyr yng Ngwynedd (33 y cant) na chyfartaledd Cymru (28 y cant). Mae hyn yn dangos sut mae incwm cymharol isel Gwynedd yn cyfrannu at broblemau sy'n ymwneud â fforddiadwyedd tai.

**Siart 4 – Rhent cymdeithasol fel cyfran o enillion wythnosol (2022)**




Ffynonellau: Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, 2022 drwy NOMIS; Stats Cymru, Stats Cymru, *Rhenti wythnosol cyfartalog ar gyfer y stoc tai cymdeithasol i'w rhentu yn ôl ardal, llety a'r math o ddarparwr* ar gael – https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Social-Housing-Stock-and-Rents/averageweeklyrentsinstockatsocialrent-by-area-accommodation-providertype

Mae problemau fforddiadwyedd yn debygol o fod yn fwy sylweddol i rai rhentwyr cymdeithasol yn Arfon. Ym mis Medi 2022 cafodd 1,597 o aelwydydd, a oedd yn byw yn y sector rhentu cymdeithasol yn Arfon, gymorth tuag at eu costau tai drwy Gredyd Cynhwysol. O blith y rhain, tybiwyd bod gan 561 ohonyn nhw (35 y cant) o leiaf un ystafell wely sbâr yn eu heiddo, ac felly roedd y Dreth Ystafell Wely yn effeithio arnyn nhw.[87] Felly, bydd yr aelwydydd hyn yn gweld diffyg rhwng faint o gymorth maen nhw'n ei gael drwy Gredyd Cynhwysol a'u rhent.

Mae cyfran yr aelwydydd yn Arfon y mae'r Dreth Ystafell Wely yn effeithio arnyn nhw yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru. Er bod y Dreth Ystafell Wely yn effeithio ar 35 y cant o aelwydydd rhentu cymdeithasol yn Arfon sy'n derbyn Credyd Cynhwysol, dim ond ar gyfer 21 y cant o'r aelwydydd y mae hynny'n wir ledled Cymru[88]. Mae nifer yr aelwydydd yn Arfon y mae'r Dreth Ystafell Wely yn effeithio arnyn nhw yn debygol o fod hyd yn oed yn fwy, ac nid oes data ar gael ar lefel is na lefel Cymru ar gyfer nifer yr aelwydydd sy'n derbyn Budd-dal Tai y mae'r Dreth Ystafell Wely yn effeithio arnyn nhw.


## 4.3 Rôl y diwydiant llety gwyliau

Un ffactor sy'n cael effaith sylweddol ar y tai sydd ar gael yng Ngwynedd yw nifer yr ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr. Yn ôl ymchwil ddiweddar gan Sefydliad Bevan, roedd 3,817 eiddo wedi'i rhestru ar Airbnb yng Ngwynedd ym mis Mai 2022.[89] Yn Arfon oedd tua chwarter o'r rhain, 898 eiddo, ac roedd yn ymddangos bod 634 ohonyn nhw'n addas i fyw ynddyn nhw yn y tymor hir.[90] Roedd cyfanswm yr eiddo yn Arfon a oedd wedi'u

rhestru ar Airbnb yn fwy na nifer yr eiddo a oedd wedi'u rhestru ar Airbnb mewn 13 awdurdod lleol yng Nghymru, gan gynnwys Sir Ddinbych, Sir Fynwy a Bro Morgannwg.

Roedd yr 898 o eiddo a oedd wedi'u rhestru ar Airbnb yn Arfon ym mis Mai 2022 wedi'u gwasgaru ar draws yr etholaeth.[91] Roedd nifer uchel iawn o eiddo Airbnb i'w gweld ar hyd y Fenai yng Nghaernarfon, yn y Felinheli ac ym Mangor yn arbennig, ac ar gyrion y Parc Cenedlaethol yn Llanberis a Bethesda.

**Delwedd 1 – Nifer yr eiddo Airbnb yn ôl ardal (2022)**



Ffynhonnell: Data a gafwyd gan Inside Airbnb, ac a ddadansoddwyd gan Sefydliad Bevan

Clywsom bryderon penodol gan bobl sy'n byw mewn cymunedau ar gyrion y Parc Cenedlaethol fod twf y diwydiant llety gwyliau yn newid natur eu cymunedau. Dywedwyd nad oedd yr ardaloedd hyn, yn hanesyddol, yn rhai a oedd â nifer uchel o "ail gartrefi". Fodd bynnag, roedd y cynnydd yn amlygrwydd Airbnb wedi newid y ddeinameg hon. Clywsom sut mae mwy a mwy o eiddo bach ym Methesda a Phen-y-groes yn cael eu prynu gan bobl sy'n eu troi'n llety gwyliau. Mae stori Pen-y-groes yn enghraifft arbennig o hyn.

> 'Os edrychwch chi ar y stryd fawr yma ym Mhen-y-groes, dyma oedd y tai roedd pobl leol yn arfer eu prynu fel cam cyntaf ar yr ysgol, hyd yn oed pobl heb incwm mor fawr â hynny... ond yr hyn rydyn ni wedi'i weld gyda mwy a mwy o lety Airbnb ac ati ydy bod y tai yma'n cael eu prynu gan bobl sy'n gallu prynu ag arian parod, neu bobl sy'n gallu codi prisiau. Mae hynny'n rhoi pwysau gwirioneddol ar bobl leol sy'n chwilio am eu cartref cyntaf eu hunain...'

## 4.4 Costau ynni

Mae costau ynni uchel yn achosi caledi mawr i filoedd o aelwydydd ar draws Arfon. Tri ffactor sy'n bennaf gyfrifol am hyn.

Dydy bron i hanner yr holl gartrefi yng Ngwynedd (49 y cant) ddim wedi'u cysylltu â'r rhwydwaith nwy.[92] O blith holl awdurdodau lleol Cymru, Gwynedd sydd â'r bedwaredd gyfran uchaf o ran eiddo sydd heb eu cysylltu â'r grid nwy, a'r 15fed gyfran uchaf ar draws Prydain Fawr.[93] Mae hyn yn golygu bod aelwydydd mewn llawer mwy o berygl o fyw mewn tlodi tanwydd, gydag amcangyfrifon Llywodraeth Cymru ei hun yn dangos er bod 11 y cant o aelwydydd sy'n gwresogi eu cartref gan ddefnyddio nwy o'r prif gyflenwad yn

byw mewn tlodi tanwydd, roedd yr un peth yn wir am 23 y cant o aelwydydd sy'n defnyddio "tanwyddau eraill" a 45 y cant o aelwydydd sy'n defnyddio trydan.[94]

Gwelwyd amrywiaeth fawr ar draws yr etholaeth o ran ymwybyddiaeth o'r ffordd mae peidio â chael chysylltiad â'r grid nwy yn effeithio ar eu risg o dlodi tanwydd. Mewn rhai rhannau o Arfon, doedd rhai rhanddeiliaid ddim yn credu bod y ffaith bod eiddo heb ei gysylltu â'r grid yn broblem fawr yn eu cymunedau, gan ei ystyried yn fater mwy brys yn rhai o rannau mwy gwledig yr etholaeth. Wrth edrych ar y data sydd ar gael ar lefel fwy lleol, fodd bynnag, mae'n amlwg ei bod yn broblem ehangach. Yn Neiniolen, er enghraifft, does gan 95 y cant o eiddo ddim cysylltiad â'r rhwydwaith nwy.[95] Mae hyd yn oed rhannau o Fangor lle nad oes gan dros hanner yr eiddo gysylltiad â'r rhwydwaith nwy.[96]

Mae'r ffaith bod eiddo yng Ngwynedd ymhlith y lleiaf effeithlon o ran ynni yng Nghymru a Phrydain Fawr yn dwysáu'r her a wynebir gan gymunedau yn Arfon sydd heb eu cysylltu â'r grid nwy, a chan drigolion yn fwy cyffredinol. Dim ond yn Ynysoedd Scilly y mae eiddo'n llai effeithlon o ran ynni nag yng Ngwynedd, gyda'r awdurdod lleol yn gydradd olaf ond un gyda Cheredigion.[97] Mae eiddo sengl yr etholaeth yn aneffeithlon iawn o ran ynni, gyda'r eiddo sengl cyfartalog yn cael gradd E ar y Dystysgrif Perfformiad Ynni (EPC), sydd ddwy lefel yn is na gradd C, lle mae eiddo'n cael ei ystyried yn effeithlon o ran ynni yn gyffredinol.[98] Yr unig fathau o eiddo yn Arfon sy'n cael gradd C ar y Dystysgrif Perfformiad Ynni fel arfer yw fflatiau a fflatiau deulawr (maisonettes).[99]

Mae trydydd ffactor yn dwysáu'r heriau y mae aelwydydd yn Arfon yn eu hwynebu. Mae cwsmeriaid sy'n defnyddio mesurydd talu ymlaen llaw yn talu mwy am yr ynni maen nhw'n ei ddefnyddio, sy'n rhoi pwysau ychwanegol ar bobl sydd ar incwm isel. Mae nifer yr aelwydydd sydd â mesuryddion talu ymlaen llaw yng Ngwynedd yn eithriadol o uchel mewn perthynas â phoblogaeth yr awdurdod lleol. Yn 2017, roedd 12,115 o aelwydydd yn defnyddio mesuryddion talu ymlaen llaw yng Ngwynedd, y pumed uchaf yn ôl nifer ledled Cymru.[100]

Mae nifer yr aelwydydd sy'n defnyddio mesuryddion talu ymlaen llaw yn debygol o fod hyd yn oed yn uwch heddiw. Ar draws y Deyrnas Unedig, cafodd 94,000 o gartrefi eu gorfodi i ddefnyddio mesurydd talu ymlaen llaw yn ystod y 12 mis hyd at fis Mawrth 2023.[101] O blith y rhain, cafodd chwarter ohonyn nhw eu gosod gan Scottish Power, y darparwr diofyn ar draws gogledd Cymru.[102]

Mae'n amlwg bod problem sylweddol gyda chostau tanwydd uchel yn Arfon. Mae hyn yn rhoi straen enfawr ar sefyllfa ariannol pobl, gan roi llawer mewn perygl o galedi sylweddol. Un o'r pethau cadarnhaol a welir yn sgil y pwysau hyn, fodd bynnag, yw bod llawer iawn o waith yn cael ei wneud yn yr ardal – gan y trydydd sector yn ogystal â'r awdurdod lleol – i helpu pobl ac i chwilio am atebion tymor hwy.

Er enghraifft, clywsom mai o Wynedd y daeth hanner yr holl geisiadau am gymorth ar ffurf talebau gan y Sefydliad Banc Tanwydd ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2022, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru. Daw hyn oherwydd bod yr awdurdod lleol yn cymryd rhan weithredol yn y dasg o gael arian allan yn gyflym, gan weithio mewn partneriaeth â'r trydydd sector, yn ogystal â maint yr angen yn lleol.

Hefyd, clywsom gan yr awdurdod lleol a mudiadau'r trydydd sector eu bod yn edrych ar ffyrdd o wella'r data tlodi tanwydd sydd ar gael iddyn nhw, er mwyn targedu cymorth yn well. Mae hyn yn deillio'n uniongyrchol o rwystredigaeth â'r sefyllfa bresennol, lle mae

rhanddeiliaid yn gwybod bod problem sylweddol yn yr etholaeth, ond mae'r data sydd ar gael yn ei gwneud yn anodd targedu'n fwy penodol:

> 'Felly, gyda thalebau'r Sefydliad Banc Tanwydd, rydyn ni'n edrych ar ba ddata sydd gennym ni, ac rydyn ni'n mynd ati i geisio targedu'r ardaloedd sydd angen ein help o bosibl. Ond does dim cofnod o lawer o'r data a fyddai'n ddefnyddiol. Dydy hi ddim yn ymddangos bod gennym ni lawer o wybodaeth ddefnyddiol am bwy sy'n gweld pethau'n anodd, felly rydyn ni'n ceisio dod o hyd i ffyrdd o amgylch hynny.'

Mae cymunedau hefyd wedi cymryd camau i gymryd perchnogaeth dros y cyflenwad ynni. Mae Ynni Ogwen, sy'n rhan o Bartneriaeth Ogwen, yn rhedeg cynllun trydan dŵr sy'n eiddo i'r gymuned. Gyda'r cynllun hwn, mae rhannau o'r elw a wneir drwy gynhyrchu trydan yn cael eu hailfuddsoddi mewn mesurau i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yn y gymuned. Maen nhw'n mynd ati hefyd i osod paneli solar mewn amrywiaeth o adeiladau sy'n eiddo i'r gymuned ar draws Bethesda, er mwyn iddyn nhw gael cyflenwad trydan gwyrdd, rhad.

## 4.5 Casgliad

Mae prinder tai fforddiadwy a chostau ynni uchel yn cael effaith ar gymunedau yn Arfon mewn nifer o ffyrdd.

Yn y tymor byr, gall wthio rhai aelwydydd incwm isel yn Arfon i galedi, sydd weithiau'n ddifrifol. Yn 2021/22, roedd cyfanswm o 489 o aelwydydd wedi gofyn am gymorth drwy'r system digartrefedd yng Ngwynedd.[103] Mae rhesymau dros boeni bod y sefyllfa wedi dirywio ers i'r data diweddaraf gael ei gyhoeddi. Mae dros 10,000 o unigolion yn byw mewn llety dros dro yng Nghymru.[104] Mae hyn yn gynnydd o dros chwarter dros y 12 mis diwethaf.[105] Gan dybio bod y tueddiadau a welir ar lefel Cymru yn cael eu hailadrodd yn Arfon, mae'n rhesymol tybio bod nifer y bobl ddigartref sy'n cael eu cartrefu mewn llety dros dro, neu sydd angen cymorth yn ehangach yn yr etholaeth, ar gynnydd. Mae llawer o bobl eraill sydd â lle i'w alw'n gartref yn cael trafferth ei gadw'n gynnes.

Un o'r pryderon tymor hwy mewn perthynas â'r pwysau hyn yw'r effaith bosibl ar allu pobl ifanc i aros yn eu cymunedau. Clywsom yn uniongyrchol gan un person ifanc ei fod yn chwilio am gyfleoedd i adael yr ardal, ac mai cost tai oedd y prif ffactor dros hynny. Os na fydd y problemau sylfaenol hyn yn cael eu datrys, bydd hyn yn cael effaith hirdymor ar economi Arfon ac, yn bwysicach, ar ei chymunedau.

# 5. Premiwm costau byw Arfon

Mae'r berthynas rhwng costau ac incwm yn un bwysig ym mhobman wrth edrych ar dlodi. Er mai tai ac ynni yw'r brif gost sy'n wynebu'r rhan fwyaf o aelwydydd, gwyddom fod costau eraill fel bwyd, trafnidiaeth a gofal plant yn gwthio teuluoedd i dlodi. Mae rhesymau dros gredu bod costau byw uchel yn broblem ddifrifol iawn yn Arfon, ac mae hyn yn arwain, i bob pwrpas, at bremiwm costau byw yn Arfon.

Bydd yr adran hon yn rhoi sylw i'r heriau hyn mewn pedair rhan, gyda phob un yn adlewyrchu thema allweddol sy'n rhoi pwysau ar aelwydydd yn Arfon ac yn cynyddu eu tebygolrwydd o fyw mewn tlodi.

- Mynediad at drafnidiaeth
- Bwyd a manwerthu
- Gofal plant
- Gwasanaethau eraill

## 5.1 Trafnidiaeth

Mae prinder mawr o drafnidiaeth gyhoeddus yn Arfon. Ac eithrio coridor Bangor/Caernarfon, dywedodd pobl sy'n byw ym mhob rhan o'r etholaeth y bydden nhw'n cael trafferth byw eu bywyd bob dydd heb gar, gan fod gwasanaethau'n gyfyngedig a'r gwasanaethau hynny sydd ar gael yn rhai afreolaidd, gyda bylchau o 90 munud rhwng bysiau yn rhywbeth cyffredin.

Teimlwyd bod y broblem hon yn ehangu i gynnwys yr etholaeth gyfan erbyn gyda'r nos, gyda hyd yn oed gwasanaethau rhwng Bangor a Chaernarfon yn gyfyngedig. Mae'n ymddangos bod sail dda i bryderon pobl wrth edrych ar amserlenni bysiau ar draws yr etholaeth. Ac eithrio'r prif lwybrau ar draws yr etholaeth, mae gwasanaethau bws yn gyfyngedig iawn ar ôl 6 p.m. ac nid oes gwasanaethau uniongyrchol ar gael yn hwyrach na chanol y prynhawn ar rai llwybrau.

**Tabl 2 – Amser y gwasanaethau uniongyrchol olaf yn ystod yr wythnos ar lwybrau dethol ar draws Arfon**

| Gadael | Cyrraedd | Y gwasanaeth olaf | Y gwasanaeth dychwelyd olaf |
|---|---|---|---|
| Bangor | Bethesda | 22:08 | 22:37 |
| Bangor | Caernarfon | 22:44 | 23:08 |
| Bangor | Deiniolen | 16:16 | 13:47 |
| Bangor | Llanberis | 17:39 | 19:19 |
| Bangor | Llanrug | 16:16 | 08:00 |
| Bangor | Pen-y-groes | 22:24 | 21:36 |
| Caernarfon | Deiniolen | 13:38 | 15:02 |
| Caernarfon | Llanberis | 18:40 | 19:49 |
| Caernarfon | Llanrug | 22:43 | 20:00 |
| Caernarfon | Nantlle | 17:19 | 17:54 |
| Caernarfon | Pen-y-groes | 22:50 | 22:28 |
| Caernarfon | Waunfawr | 18:16 | 19:18 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Sefydliad Bevan o wybodaeth Traveline Cymru. Ar gael yn – https://www.traveline.cymru/

Mae'r diffyg trafnidiaeth gyhoeddus sydd ar gael yn cael effaith uniongyrchol ar dlodi yn yr etholaeth, a hynny mewn pob math o wahanol ffyrdd.

Un o'r ffyrdd pwysicaf y mae'n effeithio ar bobl o safbwynt tlodi yw lleihau gallu pobl i weithio. I bobl sy'n methu teithio i'r gwaith neu i bobl sy'n methu defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ar adegau sy'n cyd-fynd â'u horiau gwaith, mae'r gronfa o swyddi sydd ar gael iddyn nhw yn gallu bod yn fach iawn. Hyd yn oed os yw pobl yn gallu teithio, maen nhw'n wynebu cost ychwanegol – boed yn gost rhedeg car neu drafnidiaeth gyhoeddus gostus. Mae stori un person ifanc a fu'n siarad â ni yng Nghaernarfon yn dangos gwir effaith yr heriau hyn ar bobl.

> Mae Ceri yn berson ifanc o Nantlle sy'n methu gyrru. Ar hyn o bryd maen nhw'n dilyn cwrs yng Ngholeg Llandrillo Menai yng Nghaernarfon. Cynhelir y cwrs yn ystod y dydd, ac mae Ceri yn gweithio gyda'r nos mewn bwyty yng Nghaernarfon i ennill arian i'w cynnal wrth wneud y cwrs ac i helpu eu teulu. Mae Ceri yn byw gyda'u teulu yn Nantlle, ond mae'r bws olaf i'r pentref yn gadael Caernarfon am 17:15. Mae hyn yn golygu bod rhaid i Ceri ddibynnu ar lifftiau gan y teulu i gyrraedd adref gyda'r nos, neu os ydyn nhw'n methu cael lifft, mae'n rhaid iddyn nhw aros gyda'u cefnder sy'n byw yng Nghaernarfon. Byddai'n well gan Ceri beidio â bod yn '*faich*' ar eu teulu, ond does ganddyn nhw ddim opsiwn ar wahân i leihau eu horiau yn y gwaith, gan nad yw'r arian maen nhw'n ei ennill yn ddigon i rentu eu lle eu hunain yng Nghaernarfon.

Gan ystyried maint yr heriau hyn, efallai nad yw'n syndod mai llai na 1,000 o bobl ar draws Arfon (853) ddywedodd eu bod yn cymudo i'r gwaith ar fws adeg y cyfrifiad diwethaf.[106] Yn groes i hynny, dywedodd 15,150 o bobl eu bod yn gyrru i'r gwaith.[107]

Nid y gallu i fynd i'r gwaith yw'r unig beth sy'n anodd i bobl heb rwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus dibynadwy. Clywsom gan bobl ar draws yr etholaeth a ddywedodd pa mor anodd y mae'n gallu bod i fynd i siopa, apwyntiadau meddygol neu weithgareddau cymdeithasol. Nid yw pawb ar draws Arfon yn wynebu'r heriau hyn.

Roedd yr holl randdeiliaid y gwnaethom ni ymgysylltu â nhw fel rhan o'n prosiect yn teimlo bod gan Arfon rwydwaith da o dacsis. Mae hyn yn golygu, i'r rheini sydd â'r modd i dalu, ei bod yn dal yn gallu bod yn gymharol hawdd cael gafael ar wasanaethau hyd yn oed os nad oes ganddyn nhw gar eu hunain. Teimlwyd bod cost y tacsis hyn yn afresymol o ddrud i lawer, sy'n golygu bod pobl ar yr incwm isaf yn cael eu gwthio i galedi ariannol wrth geisio mynd i apwyntiadau meddygol, er enghraifft, neu eu bod yn colli cyfle i gael y cymorth meddygol angenrheidiol. Teimlwyd bod y costau hyn yn afresymol o uchel i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn, gyda chost tacsis arbenigol yn fwy byth iddyn nhw. Mae'r profiadau amrywiol hyn yn cynyddu'r risg bod tlodi'n broblem gudd yn Arfon. I'r rheini sydd â digon o incwm i yrru i'r gwaith neu i'r archfarchnad, mae'n hawdd anghofio am faint yr heriau sy'n wynebu'r rheini sydd ar incwm isel o ran teithio o amgylch yr etholaeth.

Yn rhannol fel ymateb i faint yr heriau hyn, mae dulliau eraill o drafnidiaeth gymunedol wedi dod i'r amlwg yn Arfon. Un enghraifft o ddulliau eraill o'r fath yw'r cerbydau sy'n eiddo i'r gymuned a weithredir gan Bartneriaeth Ogwen a Siop Griffiths. Mae'r cerbydau hyn yn galluogi pobl i deithio o gymunedau sy'n aml yn cael eu gwasanaethu'n wael gan drafnidiaeth gyhoeddus, a hynny am gost sy'n llawer rhatach na thacsi. Ond mae graddfa'r cynlluniau hyn yn gyfyngedig, gyda gwasanaethau'n rhedeg yn bennaf yn ystod yr

wythnos rhwng 9 am a 5 pm, a gyda phryderon pellach ynghylch i ba raddau mae'r cynlluniau hyn yn cael eu hyrwyddo. Felly, er bod cynlluniau o'r fath yn gallu cynnig rhywfaint o gymorth i aelwydydd incwm isel yn Arfon, mae angen gweithredu ar raddfa fwy fel na fydd rhaid i bobl ar incwm isel orfod parhau i ddibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus afreolaidd a thacsis drud neu ysgwyddo'r gost o redeg car.

Un dull o deithio nad oedd yn amlwg yn ystod ein gwaith yn Arfon oedd teithio llesol. I bobl sy'n teithio'n bell i'r gwaith neu i gymdeithasu, mae cyfyngiadau o ran maint y rôl y gall teithio llesol ei chwarae er mwyn gwneud iawn am wendidau yn y system trafnidiaeth gyhoeddus. Ond gyda bron i 10,000 o bobl (9,636) yn teithio llai na 10km i weithio yn Arfon adeg y cyfrifiad diwethaf, mae miloedd o bobl yn teithio pellteroedd cymharol fyr i fynd i'r gwaith bob dydd.[108] O blith y rhain, mae 67 y cant yn teithio i'r gwaith mewn car, gyda 6 y cant arall yn teithio i'r gwaith fel teithiwr mewn car.[109] O blith y bobl sy'n teithio llai na 10km i'r gwaith, dim ond 21 y cant sy'n defnyddio dull teithio llesol, gyda bron pob un ohonyn nhw'n teithio ar droed (19 y cant o'r holl weithwyr).[110]

## 5.2 Bwyd a manwerthu

Mae diffyg trafnidiaeth gyhoeddus fforddiadwy a dibynadwy yn Arfon yn gwaethygu effaith anghydraddoldeb arall yn yr etholaeth, sef y gallu i ddefnyddio siopau fforddiadwy.

Nid yw'n syndod mai ym Mangor a Chaernarfon y mae archfarchnadoedd mawr yr etholaeth. Mae gan lawer o'r trefi bach/pentrefi mawr eraill siopau bwyd, ond mae'r rhain yn tueddu i fod yn llai. Ym Mhen-y-groes, er enghraifft, yr unig siop fwyd fawr yw Co-op bach, ac ym Methesda mae'r siopau bwyd sydd ar gael yn cynnwys Londis a Tesco Express. Mae bwyd yn y siopau hyn yn costio llawer mwy nag yn yr archfarchnadoedd mwy, sy'n golygu bod teuluoedd incwm isel sy'n methu fforddio neu'n methu â theithio i Fangor neu Gaernarfon yn wynebu biliau bwyd uwch o lawer. Nid yw'n syndod felly fod Pen-y-groes a Dyffryn Nantlle yn ehangach ymysg y 10 y cant uchaf o "anialdiroedd bwyd" yng Nghymru a Lloegr, gyda dyffryn Peris ymysg yr 20 y cant uchaf a Bethesda a dyffryn Ogwen ymysg y 30 y cant uchaf.[111]

O ganlyniad i faint y pwysau ychwanegol y mae gorfod siopa mewn siopau llai yn ei gael ar sefyllfa ariannol pobl, mae rhai o fentrau cymdeithasol Arfon wedi datblygu ffordd wahanol o helpu teuluoedd i gael gafael ar fwyd. Er enghraifft, mae Siop Griffiths ym Mhen-y-groes yn gallu darparu talebau bwyd i aelwydydd sy'n gweld pethau'n anodd yn ariannol. Mae'n awr yn cynnig siopa ar ran pobl yn Morrisons yng Nghaernarfon a danfon y bwyd iddyn nhw ym Mhen-y-groes, gan fod pobl yn gallu cael llawer mwy o fwyd drwy eu talebau fel hyn.

Mae gwasanaethau danfon bwyd yn cael eu defnyddio mewn ffyrdd eraill yn Arfon. Mewn un gymuned, clywsom am sut mae bwyd yn cael ei ddanfon i aelwydydd sy'n gweld pethau'n anodd yn ariannol, yn hytrach na bod rhaid iddyn nhw fynd i fanc bwyd. Gan mai ym Mangor, Caernarfon a rhai o'r trefi a'r pentrefi anghysbell mwyaf y mae'r banciau bwyd a'r pantrïau bwyd yn bennaf, mae'n gallu bod yn anodd iawn i bobl gael gafael ar gymorth o ystyried cost trafnidiaeth. Felly, mae darparu cymorth fel hyn ar gyfer bwyd yn cael ei ystyried yn allweddol er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu cael gafael ar gymorth.

> ...mae'n siŵr ein bod ni'n helpu tua 80 o unigolion, ac rydyn ni'n llythrennol yn mynd â'r bwyd i garreg y drws. Felly, maen nhw'n cysylltu â fi'n breifat ac yn dweud bod angen help arnyn nhw, ac yn amlwg dydyn ni ddim yn gofyn unrhyw gwestiynau. Wedyn mae tua chwech ohonon

> ni'n mynd i ddanfon y bwyd ar nos Wener. Rydw i'n mynd i nôl y bwyd o Fangor, o lori FareShare ar fore Gwener... yn rhoi'r bwyd yn yr oergelloedd...mae chwech ohonon ni'n dod yn ôl gyda'r nos ac yn llythrennol yn mynd i dai pobl ac yn rhoi bag o fwyd iddyn nhw, oherwydd dim ond drwy alw heibio y gallwn ni gael bwyd i bobl.

Er bod pwysau unigryw yn y cymunedau o amgylch Bangor a Chaernarfon, mae'n bwysig peidio ag anghofio'r pwysau y mae pobl yn y cymunedau hyn yn ei wynebu hefyd. Mae rhannau o Ward Peblig yng Nghaernarfon, er enghraifft, ymysg y 10 y cant uchaf o anialdiroedd bwyd yng Nghymru a Lloegr, gyda hynny'n cael ei achosi'n rhannol gan incwm isel pobl yn y ward.[112] Mae hynny er gwaethaf cynlluniau fel Porthi Dre yn y ward i helpu pobl i gael bwyd.

## 5.3 Gofal Plant

Mae gofal plant fforddiadwy yn bryder mawr i deuluoedd ledled Cymru. Mae'n ymddangos bod pryderon penodol yn Arfon oherwydd natur wledig rhan o'r etholaeth.

Clywsom gan nifer o bobl nad oes darpariaeth gofal plant o gwbl mewn llawer o'r pentrefi o amgylch Bangor a Chaernarfon. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth meithrinfa a gwarchodwyr plant ynghyd â gofal cofleidiol ar gyfer plant oed ysgol.

I aelwydydd ag incwm uwch, gall diffyg darpariaeth gofal plant achosi anhwylustod mawr:

> 'Mae fy mhlentyn ieuengaf yn mynd i ddarpariaeth gofal plant, ac mae 5/6 milltir i ffwrdd. Rydw i'n gorfod ei gyrru yno ac wedyn gyrru i'r gwaith, sy'n iawn, ond mae'n daith 15 milltir i gyd, ac os na fyddwn i'n gyrru... o ran amser? O ran cost? Mae'n amhosibl ar y bws, yn enwedig i bobl sydd ar gyflogau is...'

Mae aelwydydd yn wynebu heriau eraill o ran cael gafael ar ddarpariaeth gofal plant. Clywsom bryderon ym Mangor fod diffyg darpariaeth gofal plant ar gyfer rhieni â phlant anabl. Mae hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar deuluoedd sydd eisoes yn wynebu costau byw uwch.

Gall diffyg gofal plant fforddiadwy fod yn rhwystr sy'n atal rhieni, yn enwedig mamau, rhag bod yn rhan o'r gweithlu. Neu gall arwain at rai mamau'n gweithio'n rhan-amser yn hytrach nag amser llawn. Gyda diffyg trafnidiaeth gyhoeddus yn Arfon, mae teithio cryn bellter i adael plentyn gyda darparwr gofal plant yn debygol o fod yn rhwystr amhosibl i'w oresgyn i rai rhieni. Felly, mae'r diffyg gofal plant fforddiadwy sydd ar gael mewn llawer o gymunedau yn Arfon yn debygol o gael effaith ganlyniadol ar gyflogaeth menywod yn yr etholaeth.

Nid yn unig y mae diffyg gofal plant fforddiadwy mewn cymunedau yn ei gwneud yn anoddach i lawer o rieni ar incwm isel weithio, mae goblygiadau i'w plant hefyd. Mae corff o dystiolaeth yn dangos bod mynychu meithrinfeydd o ansawdd da yn gallu arwain at fanteision addysgol i blant. Mae'n bosibl bod plant o deuluoedd incwm isel yn Arfon yn colli'r cyfle i gael y manteision hyn.

Gall prinder lleoedd gofal plant mewn cymunedau yn Arfon gael effaith ar deuluoedd hefyd. Rhannwyd pryderon â ni yn ein trafodaethau y gallai teuluoedd yn Arfon fod yn fwy dibynnol ar neiniau a theidiau ac aelodau eraill o'r teulu i ddarparu gofal plant di-dâl nag mewn rhannau eraill o Gymru. Gan nad oes unrhyw ddarparwyr mewn rhai pentrefi, does

gan rieni ddim dewis ond troi at aelodau o'r teulu. Gall hyn roi straen ar berthnasoedd, effeithio ar iechyd neiniau a theidiau, a gwthio rhai neiniau a theidiau eu hunain i drafferthion ariannol os oes rhaid iddyn nhw leihau eu horiau gwaith eu hunain er mwyn gofalu am eu hwyrion a'u hwyresau.

Mae pryderon ehangach ynghylch yr effaith y gallai diffyg lleoedd gofal plant ei chael ar rai cymunedau yn Arfon yn y tymor canolig i'r tymor hwy. Clywsom fod rhai rhieni wedi dewis anfon eu plant i ysgolion ym Mangor a Chaernarfon sydd ymhellach o'r cartref, oherwydd bod yr ysgolion mwy yn gallu darparu gwasanaethau gofal plant cofleidiol mewn modd na all ysgolion mwy gwledig ei wneud. Po fwyaf o rieni fydd yn dewis gwneud hyn, yr anoddaf fydd hi i ysgolion gwledig gynnig darpariaeth o'r fath eu hunain. Gallai hyn, yn ei dro, ei gwneud yn fwy tebygol y bydd rhieni eraill yn dewis anfon eu plant i ysgolion ym Mangor a Chaernarfon, gan leihau ymhellach nifer y plant sydd yn yr ysgol. Mae hyn yn cynyddu'r risg yn y tymor canolig i'r tymor hir y bydd nifer y plant yn yr ysgol yn gostwng i'r graddau lle gwneir penderfyniad i gau'r ysgol, a throsglwyddo'r holl ddisgyblion i ysgolion mwy. Byddai datblygiad o'r fath yn cael effaith uniongyrchol ar y gymuned yn gyffredinol, a hefyd yn cael effaith negyddol iawn ar deuluoedd incwm isel sy'n byw mewn cymunedau gwledig a fyddai'n cael trafferth talu'r gost ychwanegol o gludo eu plant i ysgol sydd ymhellach i ffwrdd.

## 5.4 Gwasanaethau eraill

Nid dim ond gwasanaethau hanfodol sydd wedi'u lleoli'n ganolog yn Arfon. Mae llawer o'r cyfleoedd cymdeithasol, chwaraeon a diwylliannol sydd ar gael i bobl yr etholaeth wedi'u lleoli ar hyd y Fenai.

Yn ein sgwrs â grŵp LHDTC+ GISDA yng Nghaernarfon, clywsom gan bobl ifanc a oedd wedi teithio cryn bellter i ddod i'r grŵp, gyda rhai pobl ifanc yn gorfod mynd ar fwy nag un bws neu ddibynnu ar dacsis neu lifftiau gan ffrindiau a theulu er mwyn gallu mynychu'r grŵp. Teimlwyd bod hyn yn cael effaith sylweddol ar iechyd meddwl rhai pobl ifanc sy'n byw y tu hwnt i Fangor a Chaernarfon a oedd yn methu mynd i gwrdd â'u ffrindiau, ac a oedd yn teimlo eu bod yn methu manteisio ar gyfleoedd cymdeithasol.

Er bod llawer o wasanaethau yn Arfon wedi'u canoli ym Mangor a Chaernarfon, mae nifer o wasanaethau cyhoeddus pwysig nad oes modd cael gafael arnynt yn y naill dref na'r llall, sy'n golygu bod rhaid i bobl deithio y tu hwnt i'r etholaeth, ac mewn rhai achosion y tu hwnt i Gymru, er mwyn cael gafael ar y gwasanaeth sydd ei angen arnyn nhw. Clywsom gan randdeiliaid fod rhaid i bobl o Arfon deithio i Lerpwl, ac i Gaerdydd mewn rhai achosion, er mwyn cael y cymorth meddygol angenrheidiol. Mae hyn yn ychwanegu at y straen sy'n wynebu teuluoedd mewn cyfnod anodd, yn ogystal hefyd â'u rhoi o dan straen ariannol sylweddol, gyda theuluoedd yn wynebu costau teithio sylweddol ac yn methu gweithio cymaint oherwydd amser teithio.

Clywsom gan bobl ifanc eu bod yn teimlo nad oes digon o leoedd iddyn nhw gymdeithasu am ddim yn yr etholaeth. Er bod parciau a mannau cyhoeddus tebyg eraill ar gael yn rhad ac am ddim, dywedodd llawer o bobl ifanc wrthym eu bod weithiau'n teimlo'n anghyfforddus yn cwrdd mewn lleoedd o'r fath gan eu bod yn aml yn cael eu cyhuddo o fod yn "wrthgymdeithasol". Mae hyn hyd yn oed yn fwy o her pan fydd hi'n bwrw glaw. Er bod pobl ifanc yn gallu cwrdd mewn siopau coffi ac ati, mae'r gost o brynu diod – hyd yn oed am £2 neu £3 – yn gallu bod yn rhy uchel i'r rheini o deuluoedd incwm isel, yn enwedig os ydyn nhw eisoes wedi gorfod talu am docyn bws. Roedden nhw'n

teimlo y byddai gwell mynediad at leoedd lle gallen nhw gwrdd â ffrindiau a chymdeithasu am ddim neu am gost isel iawn, yn arwain at fanteision sylweddol i'w hiechyd meddwl, ac i'w perthynas â'r gymuned yn ehangach.

### 5.5 Casgliad

Mae cael gafael ar wasanaethau hanfodol, fel trafnidiaeth a bwyd, am gost fforddiadwy yn broblem i lawer yn Arfon. Mae'r pwysau hyn yn fwy yn yr etholaeth nag mewn llawer o rannau eraill o Gymru. Gyda'r rhan fwyaf o fesurau tlodi'n canolbwyntio ar incwm, mae profiadau teuluoedd yn Arfon yn debygol o gael eu hanwybyddu.

Mae perygl nad yw llawer o bobl yn Arfon yn gwerthfawrogi maint yr heriau sy'n wynebu rhai pobl yn eu cymunedau. Efallai na fydd pobl ym Mhen-y-groes, Deiniolen neu Fethesda sy'n gallu neidio i'w car a gyrru i Fangor a Chaernarfon i siopa yn un o'r archfarchnadoedd mwy yn deall pa mor anodd yw bywyd i bobl eraill yn eu cymuned sy'n methu fforddio gwneud hynny.

Hyd yn oed ym Mangor a Chaernarfon, mae llawer o bobl yn dal i gael trafferth talu am hanfodion. Dydy gallu cerdded neu ddal bws yn rhwydd i archfarchnad fawr ddim yn llawer o gysur os nad oes gennych chi ddigon o arian yn y banc i dalu am gost y siopa.

## 6. Y profiad o dlodi yn Arfon

Dywedodd yr holl randdeiliaid sy'n gweithio yn Arfon wrthym eu bod yn teimlo bod ymdeimlad cryf iawn o gymuned yn yr etholaeth, a bod traddodiad o'r gymuned yn datblygu ei hatebion ei hun i'w phroblemau. Gall yr ymdeimlad hwn o gymuned greu budd yn ogystal â heriau i bobl sy'n gaeth yng nghrafangau tlodi.

### 6.1 Stigma ac iechyd meddwl

Roedd stigma tlodi yn thema amlwg yn ein trafodaethau yn Arfon. Dydy stigma ddim yr un mor gyffredin, nac yn amlygu ei hun yn yr un ffordd, ar draws yr etholaeth.

Mewn rhai cymunedau yn Arfon, teimlir bod stigma'n ffactor pwysig sy'n gallu tanseilio rhaglenni a roddir ar waith i helpu pobl sy'n byw mewn tlodi. Clywsom sut, mewn un gymuned, yr oedd y penderfyniad i symud banc bwyd o stryd gefn i'r stryd fawr wedi arwain at ostyngiad yn nifer y bobl a oedd yn gofyn am gymorth, oherwydd nad oedd pobl eisiau cael eu gweld yn gofyn am gymorth. Mewn cymuned arall, clywsom sut roedd ymdrechion i sefydlu bws teithiol i roi cyngor ar fudd-daliadau wedi methu oherwydd stigma.

> '... roedd gennym ni fws, felly roedd yn uchel ei broffil ac roedd pobl yn gallu gweld beth oedd o...roeddwn i'n ei weld fel bod yn Bostmon Pat, yn teithio o gwmpas yn datrys problemau pobl... roedd rhai pethau da iawn amdano, ond roedd yna un gwendid mawr, sef bod pobl ddim eisiau cael cyngor yn eu cymuned eu hunain o flaen eu cymdogion. Felly doedd mynd at y bws a dweud "Helo! Dyma ni" ddim yn gweithio yn y bôn... felly dw i'n meddwl bod y broblem gyda stigma, yn enwedig o amgylch yr ystadau llai, yn gwbl wir.'

Fodd bynnag, roedd teimlad bod stigma'n llai o broblem yn rhai o ystadau mwyaf y cyngor ym Mangor a Chaernarfon. Dywedodd rhanddeiliaid wrthym fod y gwasanaethau

maen nhw'n eu cynnal ar yr ystadau hyn yn denu llawer mwy o niferoedd. Ond mae stigma'n dal yn broblem yn y cymunedau hyn, hyd yn oed os yw'n cael ei amlygu mewn ffordd wahanol. Clywsom ei bod yn gallu bod yn anodd iawn annog pobl o rai o ystadau tlotaf Caernarfon i ymweld â chanol y dref ar gyfer digwyddiadau. Er y byddai cost cael bws i ganol y dref wedi cyfrannu at yr anawsterau hyn o bosibl, teimlai rhanddeiliaid y gallai stigma fod yn llawer mwy o ffactor.

Clywsom gan Galeri eu bod yn gallu denu pobl o bob rhan o'r gymuned i wylio ffilmiau poblogaidd yn eu canolfan gelfyddydau, ond ei bod yn anoddach o lawer annog pobl o rai o gymunedau tlotaf Caernarfon i gymryd rhan mewn prosiectau celfyddydau cymunedol. O ganlyniad, mae Galeri bellach yn gweithio'n agos iawn gyda grwpiau cymunedol yn rhai o ystadau mwyaf difreintiedig y dref, gyda phrosiectau'n cael eu cynnal ar yr ystadau eu hunain yn hytrach nag yn Galeri. Mae'r dull hwn wedi bod yn llawer mwy llwyddiannus o ran rhoi cyfle i bobl roi cynnig ar brofiadau newydd wrth oresgyn stigma.

Rhannodd rhanddeiliaid ffyrdd creadigol eraill â ni ar gyfer mynd i'r afael â stigma. Clywsom, er enghraifft, y bu llawer mwy o alw na'r disgwyl am y pryd cymunedol wythnosol a ddarperir gan Siop Griffiths ym Mhen-y-groes. Yn eu barn nhw, un o'r prif resymau dros lwyddiant y cynllun yw nad yw wedi'i farchnata fel cynllun lliniaru tlodi, ond fel digwyddiad cymdeithasol sy'n ceisio dod â'r gymuned at ei gilydd. Mae mudiadau eraill wedi defnyddio dulliau tebyg o ran y ffordd maen nhw'n marchnata cynlluniau, ac mae rhai hefyd wedi darparu cludiant i bobl i Fangor a Chaernarfon lle gallai pobl fod yn fwy parod i ymweld â chyfleuster i ofyn am gymorth.

> ...fe welsom fod rhaid i chi fod yn sensitif iawn... rydyn ni wedi dysgu y gallem anfon rhywun i'r gymuned a hysbysebu sesiynau fel "help gyda materion digidol" neu "mynd ar-lein", ac ar yr amod ei fod yn digwydd y tu ôl i ddrysau caeedig a'i fod yn fwy dienw, byddai pobl yn dod atom ni a gallem roi sylw i amryw o bethau. Felly rydyn ni wedi gweld bod gwneud hynny'n eich galluogi i helpu pobl, a doedd dim rhaid iddyn nhw ddweud eu bod nhw'n dod oherwydd bod ganddyn nhw broblem ddyled a oedd y tu hwnt i reolaeth, neu beth bynnag.'

Mae effaith stigma yn ymestyn ymhell y tu hwnt i bobl yn gwrthod mynd i gael cymorth. Clywsom gan un rhanddeiliad a oedd yn cofio'n glir gofyn am gael ei gollwng gan y bws ysgol yn y safle bws cyn yr un lle roedd hi'n byw. Roedd hi'n gwneud hyn fel na fyddai ei ffrindiau a phlant eraill ar y bws yn gweld ei bod yn byw mewn tŷ cymdeithasol. Mae byw gyda'r stigma hwn a phwysau cyffredinol bod ar incwm isel yn rhoi straen sylweddol ar iechyd meddwl llawer o bobl.

Gwelwyd yn nata arolwg diweddar gan Sefydliad Bevan, Snapshot of Poverty, fod 48 y cant o bobl yng Nghymru wedi dweud bod eu sefyllfa ariannol wedi cael effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl.[113] Teimlai rhanddeiliaid yn Arfon fod y sefyllfa leol wedi dirywio ers dechrau'r pandemig, gyda mwy a mwy o bobl yn cael trafferth gyda'u hiechyd meddwl. Mae hyn nid yn unig yn cael effaith ar y bobl y mae hyn yn effeithio arnyn nhw'n uniongyrchol, mae hefyd yn tanseilio asiantaethau cymorth sy'n gweld y galw'n cynyddu a chymhlethdod y galw hwnnw'n cynyddu. Felly, mae ofnau y gallai'r sefyllfa ddirywio ymhellach dros y misoedd nesaf.

## 6.2 Ymateb y gymuned

Er bod cymunedau agos yn gallu achosi heriau, maen nhw hefyd yn gallu bod yn gryfder mawr. Fel yr eglurwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, mae nifer fawr o fentrau cymdeithasol ar waith yn Arfon. Maen nhw'n gwneud mwy na dim ond cynnig manteision economaidd a chyflogaeth. Mae llawer o'r mentrau cymdeithasol yn yr etholaeth yn cynnig cymorth uniongyrchol i bobl sy'n gweld pethau'n anodd yn ariannol, neu'n darparu gwasanaethau coll a ddylai fod ar gael yn lleol.

O drafnidiaeth gymunedol i bantrïau bwyd, mae mentrau cymdeithasol yn darparu pob math o wasanaethau sydd eu hangen ar eu cymunedau. Clywsom gan lawer o'r mentrau cymdeithasol fod pwyslais rhai o'r gwasanaethau ychwanegol maen nhw'n eu darparu wedi newid ers pandemig Covid 19, er mwyn canolbwyntio'n fwy penodol ar dlodi. Dangosodd y pandemig lefel yr angen yn eu cymuned. Felly, mae rhai mudiadau wedi cynyddu'r ddarpariaeth ehangach o wasanaethau cynghori. Mae'r awdurdod lleol yn annog y newid hwn yn y dull o weithredu. Clywsom fod Cyngor Gwynedd yn gobeithio y bydd wedi llofnodi memoranda cyd-ddealltwriaeth gyda 13 o fudiadau ar hyd a lled yr awdurdod lleol (gan gynnwys mentrau cymdeithasol) erbyn diwedd haf 2023, a fydd yn darparu gwasanaethau fel gwasanaethau cynghori gyda chefnogaeth yr awdurdod lleol.

Nid dim ond mentrau cymdeithasol sy'n chwarae rhan bwysig mewn cymunedau. Clywsom fod amrywiaeth o unigolion a mudiadau'n gweithio'n wirfoddol mewn cymunedau ar hyd a lled Arfon i ddarparu cymorth drwy amrywiaeth o wahanol ffyrdd. Mae hefyd amrywiaeth enfawr o elusennau a mudiadau trydydd sector, nad ydyn nhw'n gweithredu fel mentrau cymdeithasol, sy'n cynnig cymorth a chyngor hanfodol i bobl sy'n byw mewn tlodi neu sydd mewn perygl o wynebu tlodi. Mae cymdeithasau tai sydd ag eiddo yn Arfon hefyd yn ceisio mynd ati i ddatblygu ymhellach eu dulliau presennol o gynorthwyo cymunedau.

Mae cael cymaint o gefnogaeth a gweithgarwch cymunedol o'r fath yn Arfon yn sicr yn gryfder. Mae'n rhoi sylfaen i ddatblygu atebion cynaliadwy ar gyfer tlodi, sydd wedi'u gwreiddio yn anghenion a dyheadau'r gymuned. Drwy ein gwaith, clywsom fod cyfle i ddatblygu'r dulliau hyn ymhellach.

Mae dibynnu gormod ar grwpiau cymunedol i ddarparu'r atebion ar gyfer tlodi yn arwain at risgiau. Y risg gyntaf y soniwyd wrthym ni amdani oedd bod darpariaeth cymorth o'r fath yn gallu bod yn anghyson. Mewn rhai cymunedau yn Arfon does dim mentrau cymdeithasol ar waith o gwbl, na llawer o fudiadau gwirfoddol. Drwy ddibynnu gormod ar sefydliadau o'r fath i gynnal gwasanaethau mewn cymunedau, mae perygl y bydd yr anghydraddoldeb hwn yn cael ei ymwreiddio os na fydd camau'n cael eu cymryd i helpu'r cymunedau hyn i ddatblygu eu grwpiau a'u mudiadau eu hunain.

Hyd yn oed mewn cymunedau lle mae grwpiau ar waith, does dim modd gwarantu bob amser safon y cymorth gwirfoddol a ddarperir:

> Beth bynnag sydd dros ben mewn archfarchnad rydyn ni'n ei gael, felly'n amlwg dydyn ni ddim yn gwybod beth gawn ni o wythnos i wythnos, a dydyn nhw (defnyddwyr y gwasanaeth) ddim yn gwybod beth fyddan nhw'n ei gael.

Yr ail risg o ddibynnu gormod ar grwpiau cymunedol yw'r pwysau a roddir ar y gwirfoddolwyr eu hunain. Er bod sefydliadau sydd â staff cyflogedig mewn rhyw fath o

sefyllfa gadarn, rydym wedi clywed bod gwirfoddolwyr yn gorweithio yn bryder mawr i rai sefydliadau llai. Er enghraifft, dywedodd un person wrthym ei fod wedi bod yn danfon bwyd i bobl yn ei gymuned bob nos Wener ers dechrau pandemig Covid-19. Mae hynny'n ymrwymiad enfawr. Mae dod o hyd i ddigon o bobl sy'n gallu ac yn fodlon ymrwymo cymaint o amser ar gyfer gwaith gwirfoddol yn gallu bod yn anodd, sy'n golygu na fydd yn ymarferol cynnal cynlluniau o'r fath yn y tymor hir ym mhob cymuned o bosibl. Cawsom enghreifftiau gan fudiadau a oedd eisoes yn wynebu'r her hon:

> Rydyn ni wedi cael sesiwn galw heibio... y prif gyngor ar gyfer gwirfoddoli oedd bod pobl yn ymddeol ac yn fodlon treulio llawer o amser yn gwirfoddoli. Felly, byddech chi'n treulio chwe mis yn eu hyfforddi, a bydden nhw'n aros am 10 mlynedd. Dyna'r oedd pobl yn ei ddisgwyl. Ac mae hynny wedi newid yn barod... mae pobl yn barod i wirfoddoli, ond mae llai ohonyn nhw, a dydyn nhw'n sicr ddim eisiau treulio chwe mis yn hyfforddi... felly rydyn ni wedi gorfod ailystyried ein ffordd o weithio... does gennym ni ddim yr un niferoedd ag o'r blaen.

Her arall sy'n gallu cael ei hachosi wrth ddibynnu gormod ar ddarpariaeth gymunedol yw'r ffordd mae cymorth yn cael ei ddarparu. Clywsom nad yw gwahanol grwpiau cymunedol yn rhyngweithio â'i gilydd mewn rhai ardaloedd, sy'n golygu bod llawer o gymorth ar gael ar rai dyddiau, a dim cymorth o gwbl ar ddyddiau eraill:

> 'Rydw i'n gwybod bod llawer o fentrau bwyd a banciau bwyd, ond weithiau dydy'r diwrnodau ddim yn cyd-daro â'r adegau pan fydd angen cymorth ar bobl. Mae gennym bobl gyda ni yn ein canolfan. Mae angen bwyd arnyn nhw rŵan a dydy'r banc bwyd ddim yn agor tan ddydd Gwener, a dim ond dydd Llun neu ddydd Mawrth ydy hi rŵan. Felly mae hynny'n broblem hefyd. Dydy'r cymorth ddim bob amser yn hwylus.'

Gall diffyg cyd-drefnu o'r fath danseilio effeithiolrwydd staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio'n galed, gan wanhau grym ymateb y gymuned.

## 6.3 Cymunedau sy'n cael eu hanghofio

Fel y mae'r adroddiad hwn wedi egluro, mae tlodi'n broblem sylweddol yn Arfon, hyd yn oed os yw natur y broblem yn guddiedig weithiau. Mae ein gwaith wedi tynnu sylw at nifer o'r ffactorau sy'n achosi tlodi yn yr etholaeth. Drwy gydol ein gwaith, mae rhanddeiliaid wedi dweud eu bod yn teimlo bod profiadau rhai grwpiau yn yr etholaeth yn guddiedig iawn.

Teimlai rhanddeiliaid fod pobl sydd heb hawl i gyllid cyhoeddus (NRPF) yn grŵp sy'n wynebu bywyd anodd dros ben yn Arfon ar hyn o bryd. Mae pobl sydd heb hawl i gyllid cyhoeddus yn fudwyr sydd ag amodau ar eu fisâu gwaith, astudio neu deulu sy'n eu gwahardd rhag cael gafael ar lawer o'r cymorth sydd ar gael drwy'r system nawdd cymdeithasol a'r wladwriaeth les ehangach. Clywsom fod banciau bwyd a lleoedd tebyg ym Mangor wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl heb hawl i gyllid cyhoeddus sy'n gofyn am gymorth, gan gynnwys myfyrwyr, staff gofal a rhai o staff yr ysbyty. Clywsom ei bod yn ymddangos bod her neilltuol yn y ddinas ar hyn o bryd, wrth i bobl o Nigeria gyrraedd Bangor heb unman i aros.

Grŵp arall y teimlid bod eu profiadau'n cael eu hanwybyddu oedd pobl LHDTC+. Clywsom gan GISDA fod eu grŵp LHDTC+ yng Nghaernarfon wedi bod mor llwyddiannus

yn denu pobl o bob cwr o Wynedd a thu hwnt fel eu bod wedi sefydlu grwpiau newydd y tu hwnt i Gaernarfon, er mwyn rhoi cyfle i bobl fynychu grwpiau yn eu cymunedau eu hunain. Mae hyn yn dangos lefel y galw yn yr ardal am fannau diogel i bobl LHDTC+ allu cwrdd, rhywbeth y teimlwyd ei fod wedi cael ei anwybyddu yn y gorffennol. Roedd gan y grŵp fu'n siarad â ni yng Nghaernarfon bryderon penodol ynghylch sicrhau bod modd cael gafael ar wasanaethau mewn ffordd nad yw'n gwahaniaethu yn erbyn pobl LHDTC+. Er enghraifft, clywsom bryderon fod llawer o bobl drawsryweddol sy'n gwneud cais am gymorth ariannol yn cael trafferth gyda'r broses ymgeisio. Clywsom fod ceisiadau'n gallu bod yn straen ac yn drawmatig oherwydd efallai y bydd rhai ymgeiswyr yn cael eu gorfodi i ddefnyddio eu henw marw (enw unigolyn pan gafodd ei eni ond sydd wedi cael ei newid fel rhan o'r broses o newid rhyw) neu ddefnyddio'r rhywedd ar adeg eu geni ar gyfer y broses ymgeisio. Mae corff o dystiolaeth yn dangos bod y rheswm hwn yn gwneud i bobl drawsryweddol beidio â gwneud cais am gymorth ariannol.

## 6.4 Casgliad

Mae'r ffaith bod cymuned mor weithgar yn Arfon yn ffynhonnell sylweddol o gryfder. Gyda chymaint o bobl eisiau gweithredu i wella eu cymunedau, boed hynny drwy sefydlu mentrau cymdeithasol neu drwy wirfoddoli, mae sylfeini cryf y gellir adeiladu ymateb i dlodi arnyn nhw.

Fodd bynnag, mae'n bwysig peidio â gadael i gymuned mor weithgar o'r fath dynnu ein sylw oddi ar rai o'r heriau y mae pobl yn eu hwynebu. Mae stigma yn broblem wirioneddol yn yr etholaeth, gyda llawer o'r heriau y mae pobl yn eu hwynebu yn cael eu cuddio. Ni ddylid esgeuluso effaith tlodi ar iechyd meddwl pobl yn Arfon ychwaith, na'r heriau a wynebir gan lawer o fudiadau sy'n cael eu harwain gan wirfoddolwyr.

Er gwaethaf yr heriau hyn, fe glywsom neges glir iawn gan y cymunedau y buom yn siarad â nhw yn Arfon – mae pobl yn gwybod beth sydd ei angen ar eu hardal. Mae adeiladu ar y gwaith rhagorol sydd eisoes yn mynd rhagddo yn Arfon rhwng yr awdurdod lleol, mentrau cymdeithasol a'r trydydd sector yn ehangach yn allweddol i fynd i'r afael â rhai o'r heriau a amlinellir yn yr adroddiad hwn.

# 7. Casgliad ac atebion

Mae tlodi yn broblem sylweddol yn Arfon. Mae bywyd yn anhygoel o anodd i filoedd o bobl ar draws y gymuned, gyda llawer o deuluoedd yn ei chael hi'n anodd cadw dau ben llinyn ynghyd. Mae dwy neges allweddol wedi dod i'r amlwg o'n gwaith ynghylch beth yw'r ffactorau sy'n achosi tlodi yn lleol.

Mae incwm isel a gwaith ansicr yn rhesymau allweddol pam mae tlodi'n gymaint o broblem yn Arfon. Fel y mae'r adroddiad hwn wedi dangos, mae gweithwyr yn Arfon yn cael eu talu'n sylweddol is na gweithwyr ar draws gweddill Cymru a Phrydain Fawr. Mae hyn er gwaethaf y ffaith fod y tâl ar gyfer swyddi yn Arfon yn uwch na chyfartaledd Cymru ac yn unol â thâl arferol ar draws Prydain Fawr. Gwaethygir y broblem hon gan y ffaith bod gweithwyr yn Arfon yn fwy tebygol o fod mewn gwaith rhan amser a gweithio mewn swyddi heb fod yn rhai parhaol.

Mae pobl yn Arfon yn wynebu premiwm costau byw hefyd. Mae costau tanwydd, bwyd a thrafnidiaeth yn uwch yn Arfon nag mewn llawer o gymunedau eraill, gan roi pwysau ar deuluoedd sydd eisoes ar incwm isel. Mae effaith premiwm costau byw Arfon yn waeth oherwydd costau tai. Er bod y prif gostau tai yn Arfon yn is nag mewn mannau eraill ledled Cymru, o'u cyfuno ag incwm isel, a chostau byw uwch mewn ardaloedd eraill, mae'r effaith yn sylweddol.

Ni fydd tlodi yn Arfon yn cael ei ddatrys dros nos. Nid oes un ateb penodol i'r heriau sy'n wynebu cymunedau ar draws yr etholaeth. Drwy gymryd camau ar y cyd i godi incwm, lleihau costau a lleihau effaith feddyliol tlodi ar bobl, mae newid yn bosibl. Bydd y casgliad hwn yn nodi atebion a gynigir ar gyfer yr heriau yn Arfon. Yn sail i'r holl atebion hyn mae'r syniad y dylai'r holl weithgarwch economaidd yn Arfon fod er budd y gymuned. Boed hyn y ffordd y mae'r farchnad lafur neu'r farchnad dai yn Arfon yn gweithredu, neu'r ffordd y darperir gwasanaethau cyhoeddus, mae cadw cymaint o gyfoeth â phosibl o fewn y gymuned yn allweddol.

## 7.1 Cryfhau'r economi

Er mwyn mynd i'r afael â thlodi yn Arfon, mae angen datblygu'r economi mewn ffordd sydd o fudd i bawb sy'n byw yn yr etholaeth. Gellir rhoi ein syniadau ar gyfer gwireddu hyn mewn pedwar grŵp eang.

### Mwy o gyflog

Mae cyflog isel yn broblem sylweddol yn Arfon. Mae pwerau dros gyfraith cyflogaeth yn dal i fod yn San Steffan megis y pŵer i bennu'r Cyflog Byw Cenedlaethol a phwerau dros dâl salwch. Er bod cymryd camau fel cynyddu'r Cyflog Byw Cenedlaethol i lefelau sy'n rhoi cyflog digonol i bobl fwynhau safon byw dda yn hanfodol i fynd i'r afael â heriau cyflogau isel ar lefel genedlaethol, mae mesurau y gellir eu cymryd yn fwy lleol a fyddai'n gwneud gwahaniaeth i bobl yn Arfon:

- Dylai Prifysgol Bangor, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr a Chyngor Gwynedd weithio mewn partneriaeth â chymunedau yn Arfon i edrych ar sut gallan nhw wella mynediad at y swyddi ar gyflogau uwch yn eu sefydliadau.
- Dylai Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr a Chyngor Gwynedd ddod yn gyflogwyr cyflog byw achrededig.

- Dylai rhanddeiliaid lleol weithio gyda busnesau lleol a chyflogwyr i lansio Ymgyrch Cyflog Byw i gynyddu nifer y cyflogwyr cyflog byw achrededig sydd yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus yn Arfon.

## Meithrin cyfoeth cymunedol

Un o gryfderau gwirioneddol yr economi yn Arfon yw'r ystod eang o fentrau cymdeithasol sy'n gweithredu yn yr etholaeth. Gallai cryfhau ac annog datblygu rhagor o fentrau cymdeithasol fod o fudd i economi Arfon yn ei chyfanrwydd, gan gadw mwy o gyfoeth yn lleol. Dyma rai o'r mesurau y dylid eu cymryd i gyflawni hyn:

- Dylai Cyngor Gwynedd a rhanddeiliaid ddefnyddio eu pwerau cynnull i drefnu fforymau rheolaidd lle gall mentrau cymdeithasol a busnesau bach lleol gwrdd â'r sefydliadau cyhoeddus allweddol yng Ngwynedd a busnesau mwy. Gallai gwneud hynny hwyluso'r gwaith o ddatblygu rhwydweithiau a allai alluogi mentrau cymdeithasol a busnesau bach i dendro eu gwasanaethau i rai o'r sefydliadau mawr yn yr awdurdod lleol, gan gefnogi eu twf.
- Dylai Prifysgol Bangor, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr a Chyngor Gwynedd a sefydliadau mawr eraill ychwanegu elfen adeiladu cyfoeth cymunedol at eu holl ddogfennau tendro, gan sicrhau bod y manteision cymunedol ehangach a ddarperir gan fentrau cymdeithasol a busnesau bach lleol yn cael eu hystyried wrth dendro am waith.
- Dylai Cyngor Gwynedd weithio gyda phartneriaid i ddatblygu cronfa mentrau cymdeithasol. Gellid defnyddio'r gronfa hon i gefnogi menter gymdeithasol newydd sy'n cyflwyno achos cryf ynghylch sut y gallai eu busnes fod o fudd i'r gymuned, neu i helpu menter gymdeithasol sydd eisoes yn bodoli i fuddsoddi mewn nwyddau neu wasanaethau a fyddai'n ei galluogi i weithredu'n fwy cynaliadwy.

## Cefnogi twristiaeth gynaliadwy

Mae Arfon yn ffodus o gael llawer o asedau sy'n ei gwneud yn ddeniadol i dwristiaid. Mae'n ffynhonnell o gyfoeth posibl gyda thwristiaid yn gwario arian mewn cymunedau. Mae natur y model twristiaeth presennol yn echdynnol yn bennaf, gyda'r gwaith yn y sector ar gyflogau isel ac yn dymhorol gan amlaf, ac mae'r cynnydd yn y diwydiant llety gwyliau yn lleihau mynediad pobl leol at dai fforddiadwy.

Er mwyn cefnogi twristiaeth gynaliadwy, mae Cyngor Gwynedd a rhanddeiliaid wedi cymeradwyo eu Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 yn ddiweddar.[114] Dylid adolygu'r Cynllun hwn yn gyson a'i ddiwygio os oes angen er mwyn sicrhau bod y diwydiant twristiaeth yn gweithio er budd y cymunedau yn Arfon.

## Nawdd cymdeithasol

Hyd yn oed os caiff yr economi yn Arfon ei datblygu dros y blynyddoedd nesaf mewn ffordd sy'n cynnig mwy o fanteision i gymunedau, bydd angen cryfhau'r system nawdd cymdeithasol o hyd er mwyn sicrhau ei bod yn rhoi rhwyd ddiogelwch i bawb.

Mae llawer o'r prif ffactorau i alluogi cryfhau'r system nawdd cymdeithasol yn dal i fod yn San Steffan. Mae'n hanfodol bod gwaith yn parhau i lobïo Llywodraeth y DU i gynyddu'r lwfans safonol ar gyfer Credyd Cynhwysol, diwygio'r Lwfans Tai Lleol a chael gwared ar y terfyn dau blentyn ymysg mesurau eraill. Er ein bod yn aros am weithredu ar lefel y DU,

mae'n bwysig bod camau'n cael eu cymryd ar lefel fwy lleol i sicrhau bod pob teulu'n cael yr holl gymorth y mae ganddyn nhw hawl iddo.

Mae Sefydliad Bevan wedi galw ers tro byd ar Lywodraeth Cymru i sefydlu System Fudd-daliadau Gymreig. Byddai system o'r fath yn dwyn ynghyd yr holl grantiau a lwfansau datganoledig presennol mewn un lle i hwyluso'r broses ymgeisio ac yn rhoi cyfle i ddiwygio a gwella'r gefnogaeth sydd ar gael.[115]Mae camau y gallai Cyngor Gwynedd eu cymryd i wella ei systemau ei hun tra bo Llywodraeth Cymru yn rhoi ei system ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol (ond nid yw hon yn rhestr gyflawn):

- Dylai Cyngor Gwynedd sicrhau bod yr holl grantiau a lwfansau y mae ganddo bwerau gweinyddol drostyn nhw ar gael yn ddigidol.
- Dylai Cyngor Gwynedd geisio lleihau nifer y ffurflenni y mae'n rhaid i aelwydydd eu llenwi wrth wneud cais am gymorth.
- Dylai Cyngor Gwynedd sicrhau ei fod yn archwilio ac yn mabwysiadu arferion gorau gan awdurdodau lleol ledled Cymru i wella mynediad at fudd-daliadau.[116]

Yn ogystal â hyn, mae'n gadarnhaol clywed bod Cyngor Gwynedd yn mynd ati'n rhagweithiol i weithio gyda grwpiau cymunedol lleol i gryfhau'r cyngor a'r gefnogaeth ar fudd-daliadau. Dylai'r awdurdod fonitro effeithiolrwydd y dull hwn o weithredu, gan wneud newidiadau wrth iddo ddysgu am yr hyn sy'n gweithio orau ym mhob cymuned.

## 7.2 Lleihau'r premiwm costau byw yn Arfon

Mae pobl sy'n byw yn Arfon yn wynebu premiwm o ran cost gwasanaethau a chost hanfodion bob dydd. Mae rhai heriau cynhenid ynghlwm wrth ddarparu gwasanaethau mewn cymuned fel Arfon. Mae rhedeg gwasanaethau bysiau rheolaidd a rhad yn anoddach, er enghraifft, mewn etholaeth fel Arfon lle mae'r boblogaeth wedi'i gwasgaru fwy, nag mewn etholaeth fel Canol Caerdydd lle mae'r boblogaeth yn fwy dwys. Nid yw hyn yn golygu nad oes modd cymryd unrhyw gamau i fynd i'r afael â phremiwm costau byw Arfon.

### Camau gweithredu ar dai

Mae mynediad at dai fforddiadwy yn her fawr yn Arfon. Yn rhannol o ganlyniad i'r her hon, mae rhywfaint o'r gwaith mwyaf arloesol yng Nghymru ar wella mynediad at dai fforddiadwy eisoes yn digwydd o fewn Arfon ac yng Ngwynedd yn ehangach. Credwn felly y dylai Cyngor Gwynedd weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid lleol i ddatblygu ei weithgareddau presennol ac i'w cyflawni ar raddfa fwy er mwyn cael mwy o effaith ar deuluoedd. Dylai Cyngor Gwynedd:

- Ehangu ei bolisi o brynu eiddo yn ôl yn Arfon er mwyn gwella mynediad pobl leol at dai fforddiadwy.
- Ehangu gwaith cynllun peilot fforddiadwyedd ac ail gartrefi Dwyfor i gynnwys Arfon.[117]
- Adeiladu tai cymdeithasol newydd mewn cymunedau ar draws Arfon.
- Gweithio i ddylanwadu ar ddatblygiad y Papur Gwyrdd ar Dai Digonol a Rhenti Teg i sicrhau bod gan yr awdurdod lleol yr holl adnoddau sydd eu hangen yn lleol i sicrhau bod y sector rhentu preifat yn diwallu anghenion y boblogaeth leol.

## Trafnidiaeth

Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn anodd ac yn ddrud i'w defnyddio mewn sawl rhan o Arfon. Ac ystyried natur yr etholaeth, mae'n annhebygol y bydd cael un ateb sy'n addas i bawb yn gweithio i'r holl breswylwyr. Felly, mae adeiladu ar yr atebion presennol sy'n dod i'r amlwg yn yr etholaeth yn hanfodol. Gyda hyn mewn golwg, dylai Cyngor Gwynedd wneud y canlynol:

- Cefnogi mentrau cymdeithasol a darparwyr lleol annibynnol i ehangu'r ddarpariaeth trafnidiaeth gymunedol a thrafnidiaeth amgen.
- Archwilio a ellid cefnogi mwy o fentrau cymdeithasol i sefydlu eu hunain fel darparwyr trafnidiaeth gymunedol mewn ardaloedd lle nad yw hyn yn digwydd yn barod.
- Gweithio gyda phartneriaid i archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno model trafnidiaeth gyhoeddus sy'n ymateb i'r galw yn yr awdurdod lleol. Dylai archwiliad o'r fath ystyried pa rôl y gallai darparwyr bysiau presennol, darparwyr trafnidiaeth gymunedol a gyrwyr tacsis ei chwarae wrth ffurfio gwasanaeth o'r fath, a sut maen nhw'n cael eu hintegreiddio i strategaethau trafnidiaeth cenedlaethol.
- Edrych ar gyfleoedd i fuddsoddi mewn teithio llesol yn Arfon, gan gynnwys gwella seilwaith a chynyddu mynediad at offer, er enghraifft, drwy sefydlu cynlluniau llogi e-feiciau.

## Ynni

Mae costau ynni uchel yn her fawr i lawer yn Arfon. Gan fod Arfon yn gartref i rai o'r tai mwyaf aneffeithlon o ran ynni nid yn unig yng Nghymru ond ar draws Prydain Fawr, mae angen cymryd camau sylweddol i gefnogi teuluoedd yn y tymor byr i reoli costau uchel, ac i gymryd camau yn y tymor hwy i wella effeithlonrwydd ynni stoc dai'r etholaeth.

Mae gwaith da eisoes yn mynd rhagddo o fewn Arfon, yn enwedig o ran y cyntaf o'r heriau hyn. Dylai Cyngor Gwynedd felly barhau â'i waith gyda phartneriaid i sicrhau bod pob aelwyd yn yr etholaeth yn cael y cymorth y mae ganddyn nhw hawl iddo, megis talebau tanwydd.

Yn y tymor canolig i'r tymor hir, mae sylfeini cadarn i adeiladu arnyn nhw. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol, ond nid yw hon yn rhestr gyflawn:

- Y gwaith sy'n mynd rhagddo yng Nghyngor Gwynedd i ddatblygu dull gweithredu ar gyfer Eco 4 sy'n gweithio orau i Wynedd.
- Cynlluniau Adra i gynyddu'r gweithlu ar gyfer staff sy'n gweithio ym maes datgarboneiddio.
- Y ffaith bod mentrau ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned yn bodoli eisoes yn yr etholaeth.

Er mwyn adeiladu ar y sylfeini hyn, credwn:

- Y dylai Cyngor Gwynedd weithio gyda'r holl bartneriaid i ddatblygu strategaeth tlodi tanwydd ar gyfer Gwynedd gyfan. Dylai'r strategaeth hon nodi sut y bydd yr holl randdeiliaid yn y gymuned yn defnyddio'r gwahanol gyllid sydd ar gael ar hyn o bryd i wella effeithlonrwydd ynni tai yn y ffordd fwyaf effeithiol yn yr awdurdod lleol.

Yn ogystal â datblygu'r strategaeth hon, credwn fod angen archwilio sut y gall cymunedau fel y rhai yn Arfon gadw'r cyfoeth a gynhyrchir gan ynni adnewyddadwy yn hytrach na gweld elw'n cael ei dynnu yn rhywle arall. Dyma rai o'r mesurau y dylid edrych arnyn nhw:

- Sut y gellir ei gwneud yn haws i gynlluniau ynni sy'n eiddo i'r gymuned gyflenwi ynni rhad yn uniongyrchol i'w cymunedau eu hunain yn hytrach nag allforio i'r Grid Cenedlaethol yn gyntaf.
- Rhoi rhwymedigaeth ar gynhyrchwyr ynni i roi difidendau cymunedol ar waith ar gyfer unrhyw gynllun newydd y maen nhw'n ei agor. Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr ynni rannu cyfran o'u helw gyda'r gymuned leol am y cyfnod y mae unrhyw gynllun yn gweithredu yn eu hardal.
- Sut mae buddsoddi mewn seilwaith ynni cenedlaethol, fel ehangu'r Grid Cenedlaethol, yn gweithio er budd cymunedau lleol yn Arfon.

## Cyfleusterau Cymunedol

Gall cael gafael ar wasanaethau fod yn heriol iawn i bobl sy'n byw yn Arfon. Er ei bod yn well sicrhau bod gwasanaethau ar gael i bobl ar y lefel fwyaf lleol bosibl, mae daearyddiaeth a dosbarthiad y boblogaeth yn yr etholaeth yn golygu bod rhyw lefel o brofiadau gwahanol yn anochel. Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn, mae'n hanfodol bod cymunedau yn Arfon yn gwneud y defnydd gorau o'r cyfleusterau sydd ganddynt i'w defnyddio.

I'r perwyl hwn, credwn y dylai Cyngor Gwynedd fabwysiadu agwedd fwy strategol at Ysgolion Bro. Dylai'r awdurdod lleol geisio cynyddu'r gwasanaethau a ddarperir drwy ysgolion i gynnwys:

- Gofal plant – darpariaeth gofal plant cofleidiol a'r blynyddoedd cynnar.
- Mannau ar gyfer rhwydweithiau cynghori.
- Mannau ar gyfer timau allgymorth cymunedol.
- Darparu bwyd fforddiadwy fel pantri bwyd.
- Llyfyrgell Petha/ Library of Things
- Caffis trwsio.

Gallai darparu ystod mor amrywiol â phosibl o wasanaethau drwy ysgolion helpu i sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar wasanaethau heb stigma a helpu i gynnal ysgolion bach fel canolbwynt cymunedau.

## Ymateb i brofiadau pobl

Mae gwrando ar brofiadau go iawn pobl o dlodi yn hanfodol ym mhob cymuned yng Nghymru. Gan ystyried yr heriau unigryw y mae rhai cymunedau yn Arfon yn eu hwynebu, a'r prinder data, mae'r angen i wneud hynny yn yr etholaeth hyd yn oed yn fwy. Felly, dylai rhanddeiliaid yn yr etholaeth gydweithio i ddatblygu fforwm lle gall pobl rannu eu profiadau, gyda'u safbwyntiau'n cael eu defnyddio i lywio polisïau.

# Atodiad 1 – Beth wnaethon ni

Er mwyn deall tlodi yn Arfon, rydym wedi cyfuno amrywiaeth o ffynonellau data a sgyrsiau gydag amrywiaeth o randdeiliaid a phobl sy'n byw yn Arfon.

Ychydig iawn o ddata sydd ar gael ar "dlodi" fel y cyfryw ar lefel etholaeth yng Nghymru. Un eithriad i hyn yw'r data a gyhoeddwyd gan y Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant.[118] Er mwyn cael gwell dealltwriaeth o dlodi yn yr etholaeth, mae angen edrych ar ffynonellau data eraill. Felly, rydym wedi edrych ar amrywiaeth o ystadegau ac ymchwil swyddogol a gyhoeddwyd gan drydydd partïon er mwyn cael dealltwriaeth lawnach o fywyd yn Arfon. Dyma rai o'r ffynonellau rydym wedi'u harchwilio:

- Data a gyhoeddwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau drwy StatXplore
- Data a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol drwy Nomis, gan gynnwys:
  - Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion
  - Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth
- Cyfrifiad 2021
- Data a gyhoeddwyd gan Lyfrgell Tŷ'r Cyffredin Senedd y DU
- Data a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru

Dim ond rhan o'r stori y gall data wedi'i gyhoeddi ei hadrodd. Er mwyn cael dealltwriaeth lawnach o dlodi yn yr etholaeth, rydyn ni wedi cynnal sgyrsiau gydag amrywiaeth o randdeiliaid a phobl sy'n byw yn Arfon. Mae'r sgyrsiau hyn wedi'u cynnal mewn un o dair ffordd:

- Trafodaeth o gwmpas bwrdd ar gyfer rhanddeiliaid a gynhaliwyd yng Nghanolfan Noddfa, Caernarfon ar 30 Mawrth.
- Trafodaeth gyda phobl ifanc o grŵp LHDTC+ GISDA yng Nghaernarfon ar 17 Ebrill.
- Amrywiaeth o sgyrsiau un i un gyda rhanddeiliaid ar-lein ac wyneb yn wyneb.

Dyma rai o'r sefydliadau rydym wedi cynnal sgyrsiau â nhw yn ystod y prosiect:

- Adra
- Bwyd i Bawb Bangor
- Cyngor ar Bopeth Gwynedd
- Cyngor Gwynedd
- Galeri Caernarfon
- GISDA
- Grŵp Cynefin
- MaesNi Maesgeirchen
- Partneriaeth Ogwen
- Porthi Dre
- Prosiect Bwyd Cyngor Cymuned Llanrug
- Yr Orsaf/ Siop Griffiths

Hoffem ddiolch i'r sefydliadau hyn a phobl eraill rydyn ni wedi siarad â nhw am eu hamser yn cefnogi ein gwaith yn ystod y prosiect hwn.

# Cyfeiriadau

[1] Stats Cymru, *Canran yr holl unigolion, plant, oedolion oedran gweithio a phensiynwyr sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol ar gyfer gwledydd a rhanbarthau'r DU rhwng y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben (FYE) 1995 a FYE 2022 (cyfartaleddau o 3 blynedd ariannol)* sydd ar gael yn - https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Poverty/householdbelowaverageincome-by-year
[2] Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, *Constituency data: population, by age* (2021) ar gael yn - https://commonslibrary.parliament.uk/constituency-statistics-population-by-age/#single_constituency
[3] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, *Understanding towns in England and Wales: population and demography* (2021) ar gael yn - https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/understandingtownsinenglandandwalespopulationanddemography
[4] ibid
[5] Tŷ'r Cyffredin n(2)
[6] Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, *Data etholaeth: Ethnic groups, 2021 census* (2023) ar gael yn - https://commonslibrary.parliament.uk/constituency-statistics-ethnicity/#single_constituency
[7] Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, *Data etholaeth: Disability, 2021 census* (2023) ar gael yn - https://commonslibrary.parliament.uk/constituency-data-disability-2021-census/
[8] Dadansoddiad Sefydliad Bevan o ddata Cyfrifiad 2021, ar gael drwy Nomis
[9] Y Rhwydwaith Rhoi Diwedd ar Dlodi Plant, *Child poverty in your area* (2023) ar gael yn - https://endchildpoverty.org.uk/child-poverty/
[10] ibid
[11] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, *Nomis, Labour Market Profile - Arfon Parliamentary Constituency* ar gael yn - https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/wpca/1929380390/report.aspx?town=arfon#tabempunemp
[12] ibid
[13] Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, *Constituency data: public sector employment* (2022) ar gael yn - https://commonslibrary.parliament.uk/constituency-data-public-sector-employment/
[14] ibid
[15] ONS, Proffil y Farchnad Lafur n(11)
[16] ibid
[17] ibid
[18] Cwmpas, *Trawsnewid Cymru drwy fentrau cymdeithasol* (Gorffennaf 2020) ar gael yn - https://cy.cwmpas.coop/yr-hyn-a-wnawn/polisi-chyhoeddiadau/trawsnewid-cymru-drwy-fentrau-cymdeithasol/
Rydym yn ymwybodol o ymchwil barhaus bellach i rôl mentrau cymdeithasol yng Ngwynedd sy'n cynnwys Cwmni Bro Ffestiniog a ddylai roi mwy o fewnwelediad i sut y gallant ddatblygu cymunedau.
[19] Galeri Caernarfon, *Assessment of the Economic, Social and Cultural Impact of Galeri Caernarfon* ar gael yn - https://www.galericaernarfon.com/downloads/adroddiad-arad.pdf
[20] https://www.visitsnowdonia.info/sites/default/files/2021-10/GWN%20Basic%20ES%2020.pdf
[21] ONS, Proffil y Farchnad Lafur n(11)
[22] ibid
[23] ibid
[24] ibid
[25] ibid
[26] ibid
[27] ibid
[28] Dadansoddiad Sefydliad Bevan o ddata Cyfrifiad 2021, ar gael drwy Nomis
[29] ibid
[30] Dadansoddiad Sefydliad Bevan o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, ar gael drwy Nomis
[31] ibid

[32] ibid
[33] ibid
[34] ONS, Proffil y Farchnad Lafur n(11)
[35] Dadansoddiad Sefydliad Bevan o ddata Cyfrifiad 2021, ar gael drwy Nomis
[36] ibid
Adra, *canolfan datgarboneiddio newydd Gogledd Cymru yn dod â swyddi i Benygroes* (Gorffennaf 2022) sydd ar gael yn - https://www.adra.co.uk/canolfan-datgarboneiddio-newydd-yng-ngogledd-cymru-yn-dod-a-swyddi-i-benygroes/
[38] Stats Cymru n(1)
[39] ibid
[40] Dadansoddiad Sefydliad Bevan o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, ar gael drwy Nomis
[41] ibid
[42] ibid
[43] Gov.UK, *National Minimum Wage* (Mawrth 2023) ar gael yn - https://www.gov.uk/government/publications/the-national-minimum-wage-in-2023/the-national-minimum-wage-in-2023
[44] *Pwy yw'r* Sefydliad Cyflog Byw? Ar gael yn - https://www.livingwage.org.uk/what-real-living-wage
[45] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, *Number and proportion of employee jobs with hourly pay below the living wage* (2022) ar gael yn - https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/datasets/numberandproportionofemployeejobswithhourlypaybelowthelivingwage
[46] ibid
Y Sefydliad Cyflog Byw, *Accredited Living Wage Employers* ar gael yn https://www.livingwage.org.uk/accredited-living-wage-employers
[48] ibid
[49]Sefydliad Bevan, *Fair work in the foundational economy: experiences in hospitality* (Mai 2021) ar gael yn - https://www.bevanfoundation.org/resources/fair-work-in-the-foundational-economy-experiences-in-hospitality/
[50]Sefydliad Bevan, *How economic growth can reduce poverty in Wales: What works and what should be done?* (Gorffennaf 2016) ar gael yn - https://www.bevanfoundation.org//wp-content/uploads/2017/11/Growth-Sectors-Briefing-4.pdf
[51] Sefydliad Bevan, *A snapshot of poverty in winter 2023* (Chwefror 2023) ar gael yn - https://www.bevanfoundation.org/resources/a-snapshot-of-poverty-in-winter-2023/
[52] Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, *Constituency data: Universal Credit rollout* (Chwefror 2023) ar gael yn - https://commonslibrary.parliament.uk/constituency-data-universal-credit-roll-out/
[53] Dadansoddiad Sefydliad Bevan o ddata'r Adran Gwaith a Phensiynau, ar gael drwy Stat Xplore
[54] ibid
[55] ibid
[56] ibid
[57] ibid
[58] ibid
[59] Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin n(52)
[60] ibid
[61] ibid
[62] ibid
[63] Dadansoddiad Sefydliad Bevan o ddata'r Adran Gwaith a Phensiynau, ar gael drwy Stat Xplore
[64] Ymddiriedolaeth Trussell a Sefydliad Joseph Rowntree, *Guarantee our Essentials: reforming Universal Credit to ensure we can all afford the essentials in hard times* (2023) ar gael yn - https://www.jrf.org.uk/report/guarantee-our-essentials
[65] Policy in Practice, *Missing out: £19 billion of support goes unclaimed each year* (Ebrill 2023) ar gael yn - https://policyinpractice.co.uk/wp-content/uploads/Missing-out-19-billion-of-support.pdf
[66] Sefydliad Bevan a Policy in Practice, *A common approach to Welsh benefits: Feasibility study* (Ebrill 2023) ar gael yn - https://www.bevanfoundation.org/resources/welsh-benefits-feasibility/

[67] Nid yw'n berthnasol i bobl sy'n cael Credyd Cynhwysol oherwydd nad ydyn nhw'n gallu gweithio oherwydd anabledd neu gyflwr iechyd neu am eu bod yn gofalu am rywun anabl, nac i bobl sy'n cael Credyd Cynhwysol ac sy'n ennill £658 y mis neu fwy. Nid yw rhai budd-daliadau fel y Taliad Annibyniaeth Bersonol yn cael eu cynnwys yn y cap.

[68] Dadansoddiad Sefydliad Bevan o ddata'r Adran Gwaith a Phensiynau, ar gael drwy Stat Xplore
[69] Llywodraeth Cymru, *Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019* ar gael yn - https://wimd.gov.wales/explore?lang=en#domain=income&&z=12&lat=53.2171&lng=-4.0720
[70] Dadansoddiad Sefydliad Bevan o ddata Cyfrifiad 2021, ar gael drwy Nomis
[71] ibid
[72] ibid
[73] ibid
[74] ibid
[75] ibid
[76] ibid
[77] ibid
[78] Stats Cymru, *People in relative income poverty by tenure type* ar gael yn – https://statswales.gov.wales/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Poverty/peopleinrelativeincomepoverty-by-tenuretype
[79] ibid
[80] ibid
[81] ibid
[82] Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, *Constituency data: house prices* (Rhagfyr 2022) ar gael yn – https://commonslibrary.parliament.uk/constituency-data-house-prices/#single_constituency
[83] Sefydliad Bevan, *Local Housing Allowance and the private rental market in Wales, Winter 2023* (Mawrth 2023) ar gael yn – https://www.bevanfoundation.org/resources/housing-winter-2023/
[84] Dadansoddiad Sefydliad Bevan o ddata'r Adran Gwaith a Phensiynau, ar gael drwy Stat Xplore
[85] ibid
[86] Stats Cymru, *Rhenti wythnosol cyfartalog ar gyfer y stoc tai cymdeithasol i'w rhentu yn ôl ardal, llety a'r math o ddarparwr* ar gael yn – https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Social-Housing-Stock-and-Rents/averageweeklyrentsinstockatsocialrent-by-area-accommodation-providertype
[87] Dadansoddiad Sefydliad Bevan o ddata'r Adran Gwaith a Phensiynau, ar gael drwy Stat Xplore
[88] ibid
[89] Sefydliad Bevan, *Holiday lets and the private rental sector* (Medi 2022) ar gael yn –- https://www.bevanfoundation.org/resources/holiday-lets-and-the-prs/
[90] ibid
[91] ibid
[92] Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, *Sub-national estimates of properties not connected to the gas network* (Rhagfyr 2022) ar gael yn – https://www.gov.uk/government/statistics/sub-national-estimates-of-households-not-connected-to-the-gas-network
[93] ibid
[94] Llywodraeth Cymru, *Amcangyfrifon tlodi tanwydd wedi'u modelu ar gyfer Cymru: ar Hydref 2021*, ar gael yn – https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2022-11/fuel-poverty-modelled-estimates-for-wales-as-at-october-2021-648.pdf
[95] Y Grid Cenedlaethol, *The non gas map*, ar gael yn – https://www.nongasmap.org.uk/
[96] ibid
[97] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, *Energy efficiency of Housing, England and Wales, local authority districts* (Hydref 2022) ar gael yn – https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/housing/datasets/energyefficiencyofhousingenglandandwaleslocalauthoritydistricts
[98] ibid
[99] ibid
[100] Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, *Electric prepayment meter statistics* (2019) ar gael yn -https://www.gov.uk/government/statistics/electric-prepayment-meter-statistics

[101] Yr Adran Diogelu Ffynonellau Ynni a Sero Net, *Just 3 energy suppliers making up over 70% of all forced installation of prepayment meters* (2023) ar gael yn – https://www.gov.uk/government/news/just-three-energy-suppliers-making-up-over-70-of-all-forced-installation-of-prepayment-meters#:~:text=Over%2094%2C000%20prepayment%20meters%20were%20forcibly%20installed%20in%20homes%20under,over%207%2C500%20meters%20a%20month.
[102] ibid
[103] Stats Cymru, *Aelwydydd am gymorth wedi cael ei ddarparu yn ystod yn ôl canlyniadau a'r math o aelwyd* ar gael yn – https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Homelessness/householdsforwhichassistancehasbeenprovided-by-outcome-householdtype
[104] Llywodraeth Cymru, *Darpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan: Rhagfyr 2022* (Mawrth 2023) ar gael yn – https://www.llyw.cymru/darpariaeth-llety-digartrefedd-chysgu-allan-rhagfyr-2022
[105] Llywodraeth Cymru, *Darpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan: Rhagfyr 2021* (Mawrth 2022) ar gael yn – https://www.llyw.cymru/darpariaeth-llety-digartrefedd-chysgu-allan-rhagfyr-2021
[106] Dadansoddiad Sefydliad Bevan o ddata Cyfrifiad 2021, ar gael drwy Nomis
[107] ibid
[108] ibid
[109] ibid
[110] ibid
[111] Canolfan Ymchwil Data Defnyddwyr, *E-food Desert Index*, ar gael yn – https://data.cdrc.ac.uk/dataset/e-food-desert-index
[112] ibid
[113] Sefydliad Bevan n(51)
[114] Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri, *cynllun strategol Cynllun Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035* (Chwefror 2023) ar gael yn - https://snowdonia.gov.wales/wp-content/uploads/2023/02/Awdurdod-08.02.2023.pdf
[115] Sefydliad Bevan n(66)
[116] Mae enghreifftiau o arferion gorau o'r fath i'w gweld yng nghyhoeddiad diweddar Sefydliad Bevan a Policy in Practice, n(66)
[117] Llywodraeth Cymru, *Cynllun peilot ail gartrefi a fforddiadwyedd Dwyfor* (Ebrill 2023) ar gael yn - https://www.llyw.cymru/cynllun-peilot-ail-gartrefi-fforddiadwyedd-dwyfor
[118] End Child Poverty n(9)